

# MONA OFFSHORE WIND PROJECT

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg Community and Linguistic Impact Assessment

Rhif y Ddogfen: MOCNS-J3303-RPS-10032

Cyfeirnod Dogfen: E5

Rheoliadau APFP: 5(2)(a)

Chwefror 2024

F01



Llun o fferm wynt alltraeth

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

### Statws y ddogfen

Fersiwn	Diben y ddogfen	Awdur	Adolygwyd gan	Cymeradwyw yd gan	Dyddiad adolygu
F01	Cais	Cadnant Planning	Mona Offshore Wind Ltd	Mona Offshore Wind Ltd	Chwefror 2024

Paratowyd gan:

Cadnant Planning

Paratowyd ar gyfer:

Mona Offshore Wind Ltd.

## FOREWARD

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei rhannu yn ddwy adran, sy'n cynnwys fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg. Mae adran 1 y ddogfen hon yn cynnwys y fersiwn Gymraeg ac mae adran 2 yn cynnwys y fersiwn Saesneg.

This document has been separated into two sections, which provide a Welsh and English version of the Community and Linguistic Impact Assessment. Section 1 of this document provides the Welsh version and section 2 provides the English version.

## Cynnwys

<b>1 ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED A'R GYMRAEG .....</b>	<b>1</b>
1.1 Cyflwyniad .....	1
1.2 Prosiect Gwynt Alltraeth Mona .....	1
1.3 Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg .....	1
1.3.1 Trosolwg .....	1
1.3.2 Nodau ac amcanion yr AEGG .....	2
1.3.3 Astudiaethau eraill .....	2
1.4 Ddeddfwriaeth, polisiau a chanllawiau .....	2
1.4.1 Cyflwyniad .....	2
1.4.2 Pam fod angen cynnal AEGG? .....	2
1.4.3 Ddeddfwriaethau cenedlaethol ar gyfer iaith a chynllunio .....	3
1.4.4 Fframweithiau polisi iaith a pholisiau cynllunio cenedlaethol .....	4
1.4.5 Strategaethau iaith cenedlaethol .....	5
1.4.6 Polisiau a chanllawiau cynllunio lleol .....	5
1.4.7 Strategaethau iaith lleol .....	6
1.4.8 Canllawiau perthnasol eraill .....	7
1.5 Ymgynghoriad .....	8
1.6 Y Prosiect yn Gyffredinol .....	8
1.7 Dull asesu .....	9
1.7.1 Cyd-destun y fethodoleg .....	9
1.7.2 Y fethodoleg fanwl .....	10
1.7.3 Ardaloedd yr astudiaeth .....	11
1.8 Ardal yr astudiaeth o broffil y Gymraeg .....	14
1.8.1 Trosolwg .....	14
1.8.2 Nodweddion y boblogaeth .....	14
1.8.3 Proffil y Gymraeg .....	15
1.9 Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg .....	17
1.9.1 Cyflwyniad .....	17
1.9.2 Nodweddion y boblogaeth .....	17
1.9.3 Ansawdd bywyd .....	23
1.9.4 Ffactorau economaidd .....	24
1.9.5 Cyflenwad seilwaith .....	31
1.9.6 Agweddau cymdeithasol a diwylliannol .....	33
1.10 Casgliad a'r mesurau lliniaru a gwella arfaethedig .....	38
1.10.1 Adeiladu .....	38
1.10.2 Gweithredu a chynnal a chadw .....	39
1.10.3 Datgomisiynu .....	41
1.10.4 Mesurau lliniaru a/neu wella .....	41
1.11 Cyfeiriadau .....	41
<b>2 COMMUNITY AND LINGUISTIC IMPACT ASSESSMENT.....</b>	<b>43</b>
2.1 Introduction .....	43
2.2 The Mona Offshore Wind Project .....	43
2.3 Community and Linguistic Impact Assessment .....	43
2.3.1 Overview .....	43
2.3.2 Aims and objectives of the CLIA .....	44
2.3.3 Other studies .....	44
2.4 Legislation, policy and guidance .....	44
2.4.1 Introduction .....	44
2.4.2 Why is a CLIA required? .....	44
2.4.3 National planning and language legislation .....	46
2.4.4 National planning policy and language policy framework .....	47
2.4.5 National language strategies .....	48

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

2.4.6	Local planning policies and guidance .....	48
2.4.7	Local language strategies .....	49
2.4.8	Other relevant guidance .....	50
2.5	Consultation.....	51
2.6	Project overview .....	51
2.7	Approach to the assessment.....	52
2.7.1	Methodological context.....	52
2.7.2	Detailed methodology.....	53
2.7.3	Study areas .....	54
2.8	Welsh language profile study area .....	56
2.8.1	Overview .....	56
2.8.2	Population characteristics .....	57
2.8.3	Welsh language profile.....	58
2.9	Assessment of effect on Welsh language .....	60
2.9.1	Introduction.....	60
2.9.2	Population characteristics .....	60
2.9.3	Quality of life.....	66
2.9.4	Economic factors.....	67
2.9.5	Infrastructure supply.....	74
2.9.6	Social and cultural aspects .....	76
2.10	Conclusion and proposed mitigation and enhancement measures .....	81
2.10.1	Construction .....	81
2.10.2	Operations and maintenance .....	82
2.10.3	Decommissioning .....	84
2.10.4	Mitigation and/or enhancement measures.....	84
2.11	References .....	85

## Tablau

Tabl 1.1:	Deddfwriaethau cenedlaethol ar gyfer iaith a chynllunio .....	3
Tabl 1.2:	Fframweithiau polisi deddfwriaeth iaith a pholisiau cynllunio cenedlaethol.....	4
Tabl 1.3:	Strategaethau iaith cenedlaethol .....	5
Tabl 1.4:	Polisiau a chanllawiau cynllunio lleol.....	5
Tabl 1.5:	Strategaethau iaith lleol. ....	6
Tabl 1.6:	Canllawiau perthnasol eraill.....	7
Tabl 1.7:	Poblogaeth breswyl 2011 a 2021 .....	14
Tabl 1.8:	Nifer y siaradwyr Cymraeg a'r ganran o gyfanswm y boblogaeth (dros 3 oed) 2011-2021.....	16
Table 2.1:	National planning and language legislation.....	46
Table 2.2:	National planning policy and language legislation policy framework.....	47
Table 2.3:	National language strategies.....	48
Table 2.4:	Local planning policies and guidance.....	48
Table 2.5:	Local language strategies.....	49
Table 2.6:	Other relevant guidance. ....	50
Table 2.7:	Resident population 2011 and 2021 .....	57
Table 2.8:	Number of Welsh speakers and the percentage of the total population (aged 3 and over) 2011-2021.....	58

## Ffigurau

Figur 1.1:	Ffigurau mudo poblogaeth net gogledd Cymru yn ôl carfannau oedran 2001-2020.....	15
Ffigur 1.2:	Canran o gyfanswm y boblogaeth dros 3 oed ag un neu ragor o sgiliau Cymraeg, yn ôl ardal, yn 2011 a 2021.....	17
Figure 2.1:	North Wales net population migration by age cohorts 2001-2020 .....	58
Figure 2.2:	Percentage of the total population aged 3 and over with one or more skills in Welsh by area in 2011 and 2021.....	60

Rhestr Termau

Term

Ystyr

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

Ceisydd	Mona Offshore Wind Limited.
Is-orsaf National Grid Bodelwyddan	Dyma'r Pwynt Rhyng-gysylltu a ddewiswyd gan y National Grid ar gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Mona.
Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg	Asesiad o effeithiau arfaethedig Prosiect Gwynt Alltraeth Mona ar y Gymraeg, ei diwylliant, a'r gymuned.
Gorchymyn Cydsyniad Datblygu	Gorchymyn a wneir o dan Ddeddf Cynllunio 2008 sy'n rhoi caniatâd datblygu ar gyfer un neu ragor o Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.
Datganiad Amgylcheddol	Y ddogfen sy'n cyflwyno canlyniadau proses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Mona.
Awdurdod Lleol	Corff sydd â grym o dan y gyfraith i arfer amryw o swyddogaethau statudol ar gyfer rhan benodol o'r Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys Cynggorau Sir, Cyngorau Dosbarth a Chyngorau Bwrdeistref Sirol.
Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Amlinellol	Cynllun sy'n nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a chyflogaeth pobl leol mewn perthynas â Phrosiect Gwynt Alltraeth Mona
Awdurdod Cynllunio Lleol Perthnasol	Yr Awdurdod Cynllunio Lleol Perthnasol yw'r Awdurdod Lleol mewn perthynas ag ardal y mae prosiect wedi'i leoli yn yddi, fel y nodir yn Adran 173 o Ddeddf Cynllunio 2008. Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol perthnasol fod yn gyfrifol am gyflawni gofynion a rhai swyddogaethau yn unol â'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, ar ôl ei wneud.

## Acronymlau

Acronym	Disgrifiad
AfL	Cytundeb Lesio
CCBC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
CLIA	Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg
DCC	Cyngor Sir Ddinbych
FTE	Cyfwerth ag Amser Llawn
GVA	Gwerth Ychwanegol Gros
LDP	Cynllun Datblygu Lleol
LPA	Awdurdod Cynllunio Lleol
OSP	Platfform Is-orsaf ar y Môr
SPG	Canllawiau Cynllunio Atodol
TAN	Nodyn Cyngor Technegol

## Unedau

Uned	Disgrifiad
kV	Cilofoltau
km	Cilometrau
km <sup>2</sup>	Cilometrau sgwâr
nm	Milltiroedd môr
%	Canran

## Glossary

Term	Meaning
Applicant	Mona Offshore Wind Limited.
Bodelwyddan National Grid Substation	This is the Point of Interconnection selected by the National Grid for the Mona Offshore Wind Project.
Community and Linguistic Impact Assessment	An assessment of the predicated effects of the Mona Offshore Wind Project on Welsh language, culture and the community.
Development Consent Order	An order made under the Planning Act 2008 granting development consent for one or more Nationally Significant Infrastructure Project.
Environmental Statement	The document presenting the results of the Environmental Impact Assessment (EIA) process for the Mona Offshore Wind Project.
Local Authority	A body empowered by law to exercise various statutory functions for a particular area of the United Kingdom. This includes County Councils, District Councils and County Borough Councils.
Outline Employment and Skills Plan	A plan identifying opportunities for the employment and skills development of local people in relation to the Mona Offshore Wind Project
Relevant Local Planning Authority	The Relevant Local Planning Authority is the Local Authority in respect of an area within which a project is situated, as set out in Section 173 of the Planning Act 2008. Relevant Local Planning Authorities may have responsibility for discharging requirements and some functions pursuant to the Development Consent Order, once made.

## Acronyms

Acronym	Description
AfL	Agreement for Lease
CCBC	Caerphilly County Borough Council
CLIA	Community and Linguistic Impact Assessment
DCC	Denbighshire County Council
FTE	Full Time Equivalent
GVA	Gross Value Added
LDP	Local Development Plan
LPA	Local Planning Authority
OSP	Offshore Substation Platform
SPG	Supplementary Planning Guidance
TAN	Technical Advice Note

## Units

**PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA**


---

<b>Unit</b>	<b>Description</b>
kV	Kilovolts
km	Kilometres
km <sup>2</sup>	Kilometres squared
nm	Nautical miles
%	Percentage

## 1 Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg

### 1.1 Cyflwyniad

- 1.1.1.1 Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg yn asesu effeithiau arfaethedig Prosiect Gwynt Alltraeth Mona ar y Gymraeg, ei diwylliant, a'r gymuned. Pan fydd effeithiau niweidiol a manteisiol yn cael eu nodi, cynigir mesurau i liniaru effeithiau niweidiol ac i wella rhai manteisiol.
- 1.1.1.2 Fel y nodwyd ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae Cymru yn wlad ddwyieithog, lle na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ei strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017), mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod "yr iaith Gymraeg yn un o drysorau Cymru"; mae'n rhan o'r hyn sy'n diffinio'r genedl Gymreig ac yn rhan annatod o fywyd bob dydd.
- 1.1.1.3 Mae adran 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ystyriaethau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg, cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r cais, gael eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio. Er bod Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn gais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, mae'r adran hon o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn berthnasol gan ei bod yn darparu cyd-destun ar gyfer polisi cynllunio cenedlaethol a lleol Cymru, sy'n ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.
- 1.1.1.4 Mae hyn yn sicrhau bod ystyriaeth gyson a phriodol yn cael ei rhoi i'r Gymraeg wrth baratoi ceisiadau am ganiatâd cynllunio ac wrth benderfynu arnynt.

### 1.2 Prosiect Gwynt Alltraeth Mona

- 1.2.1.1 Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yw fferm wynt alltraeth arfaethedig yn nwyrain Môr Iwerddon. Mae Mona Offshore Wind Limited (y Ceisydd), menter ar y cyd rhwng bp Alternative Energy Investments Ltd (a elwir yn bp o hyn ymlaen) ac Energie Baden-Württemberg AG (a elwir yn EnBW o hyn ymlaen) yn datblygu Prosiect Gwynt Alltraeth Mona. Mae trosolwg o Brosiect Gwynt Alltraeth Mona yn adran 1.6.

### 1.3 Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg

#### 1.3.1 Trosolwg

- 1.3.1.1 Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg (AEGG) yn adnodd i helpu i wneud penderfyniadau wrth asesu effeithiau posib prosiect ar y Gymraeg, ei diwylliant, a'r gymuned. Mae adran 1.4 yr AEGG hwn yn cynnwys canllawiau perthnasol a'r arferion gorau o ran sut dylid cynnal CLIA.
- 1.3.1.2 Mae AEGG yn asesu effeithiau tebygol datblygiad sy'n cael ei gynnig (Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn yr achos hwn) ar bum prif agwedd o fywyd cymunedol er mwyn canfod beth ydy'r effaith ar gymuned yn gyffredinol ac, yn fwy penodol, ar y Gymraeg a'i diwylliant. Dyma'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol sy'n cael eu hystyried mewn AEGG:
- Nodweddion y boblogaeth
  - Ansawdd bywyd
  - Ffactorau economaidd
  - Cyflenwad seilwaith

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

- Agweddau cymdeithasol a diwylliannol.
- 1.3.1.3 Pan fydd yr asesiad yn nodi effeithiau niweidiol ar yr iaith, diwylliant a'r gymuned Gymraeg, bydd mesurau lliniaru yn cael eu hawgrymu i lliniaru'r effeithiau niweidiol hynny. Pan fydd effeithiau manteisiol yn cael eu canfod, bydd mesurau gwella'n cael eu hawgrymu er mwyn gwella'r effeithiau manteisiol hyn ymhellach ar yr iaith, y diwylliant a'r gymuned Gymraeg.
- 1.3.2 Nodau ac amcanion yr AEGG**
- 1.3.2.1 Nod yr AEGG hwn ydy asesu effeithiau posib Prosiect Gwynt Alltraeth Mona ar y Gymraeg a'i diwylliant, a'r gymuned.
- 1.3.2.2 Mae amcanion yr AEGG wedi'u nodi isod:
- Mesur faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd a phroffil cymunedol sy'n berthnasol i ardaloedd yr astudiaeth er mwyn deall sut byddai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant
  - Rhag-weld, dadansoddi ac asesu effeithiau tebygol Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, gan gynnwys effeithiau cymunedol ac ieithyddol uniongyrchol ac anuniongyrchol, ac effeithiau cronus
  - Llunio mesurau lliniaru a chynigion gwella i leihau effeithiau niweidiol ac i wella effeithiau manteisiol a nodwyd fel rhan o'r asesiad.
- 1.3.3 Astudiaethau eraill**
- 1.3.3.1 Mae'r asesiad a gyflwynir yn yr AEGG hwn yn seiliedig ar y canlynol:
- Mae Cyfrol 4, Pennod 3: Nodweddion economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Ddogfen: F4.3).
- 1.4 Deddfwriaeth, polisiau a chanllawiau**
- 1.4.1 Cyflwyniad**
- 1.4.1.1 Mae'r AEGG yn ymateb i'r ddeddfwriaeth berthnasol, y fframweithiau polisi cynllunio lleol a chenedlaethol a strategaethau sy'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel mater cynllunio.
- 1.4.2 Pam fod angen cynnal AEGG?**
- 1.4.2.1 Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan y Gymraeg statws swyddogol, ac felly mae iddi rym cyfreithiol ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.
- 1.4.2.2 Mae modd ystyried bod rhannau o ogledd Cymru, fel Ynys Môn a Gwynedd, yn gadarnleoedd y Gymraeg lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf, o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru. Er mai dim ond 17.8% o boblogaeth Cymru oedd yn siarad Cymraeg yn 2021, roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd yn uwch o lawer: 55.8% a 64.4% yn y drefn honno. Roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg ar draws gogledd Cymru yn 2021 yn 29.1%. Mae gan rannau eraill o ogledd Cymru gyfran lawer is o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg; 11.6% yn Sir y Fflint, sef yr isaf ar draws awdurdodau gogledd Cymru, a 12.2% yn Wrecsam. Roedd 25.9% o boblogaeth Conwy a 22.5% o boblogaeth Sir Ddinbych yn siarad Cymraeg yn 2021. Mae'r

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

Gymraeg a'i diwylliant yn elfennau annatod o wead cymdeithasol nifer o gymunedau yng ngogledd Cymru, ac maen nhw wrth galon yr ymdeimlad o hunaniaeth sydd gan lawer o bobl.

- 1.4.2.3 Bydd ffyniant y Gymraeg fel iaith gymunedol yn y dyfodol yn dibynn ar amrywiaeth o ffactorau, fel newidiadau demograffig, yr economi, cyfleoedd cyflogaeth, argaeledd a phrisiau tai a'r system addysg. Felly, mae'n hanfodol deall effeithiau tebygol Prosiect Gwynt Alltraeth Mona ar ffactorau o'r fath er mwyn asesu'r effeithiau ar ffyniant yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y dyfodol.
- 1.4.2.4 Yng Nghymru, mae'r iaith Gymraeg hefyd yn ystyriaeth gynllunio statudol o bwys y mae'n rhaid rhoi sylw iddi wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, gan gynnwys prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol fel Prosiect Gwynt Alltraeth Mona. Yn unol â pholisiau cynllunio lleol a chenedlaethol, rhaid i rai prosiectau yng Nghymru fynd drwy broses asesu benodol oherwydd eu natur, eu maint a'r tebygolrwydd y byddant yn effeithio'n sylweddol ar y Gymraeg. Gelwir y broses asesu hon yn 'Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg' (AEGG).
- 1.4.2.5 Rhestir deddfwriaeth a pholisi perthnasol yn Tabl 1.1, Tabl 1.2, Tabl 1.4 a rhestrir strategaethau iaith cenedlaethol a lleol yn Tabl 1.3 a Tabl 1.5.

### 1.4.3 Deddfwriaethau cenedlaethol ar gyfer iaith a chynllunio

**Tabl 1.1: Deddfwriaethau cenedlaethol ar gyfer iaith a chynllunio.**

Dogfen	Crynodeb
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	<p>Gwnaeth ddarpariaeth ar gyfer statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreodd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae pump o Reoliadau Safonau'r Gymraeg wedi'u mabwysiadu ers mis Mawrth 2015, sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, Gweinidogion Cymru a sefydliadau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r rheoliadau yn pennu safonau darparu gwasanaeth; safonau llunio polisi; safonau gweithredu; a safonau cadw cofnodion ar gyfer sefydliadau. Dyma nodau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu cael gan sefydliadau drwy gyfrwng y Gymraeg</li> <li>• Cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg</li> <li>• Dweud yn glir wrth sefydliadau beth mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg</li> <li>• Sicrhau bod cysondeb priodol o ran y dyletswyddau sydd ar gyrrf yn yr un sector.</li> </ul>
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013	<p>Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer camu i mewn i ysgolion sy'n peri pryder, gwella ysgolion, trefniadaeth ysgolion a'r Gymraeg mewn Cyfluniau Strategol Addysg. Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Nod y Strategaeth yw creu system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, a sicrhau bod yr iaith yn ffynnu a chynyddu caffaeliad a defnydd o'r Gymraeg.</p>
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	<p>Yn gosod nodau uchelgeisiol, tymor hir o ran llesiant i adlewyrchu'r Gymru y mae pobl Cymru eisiau byw yn ddi yn awr ac yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn meddwl mwy am y tymor hir, yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, yn ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu mwy cydlynol – gan helpu i greu Cymru rydyn ni eisiau byw yn ddi nawr ac yn y dyfodol.</p> <p>Un o'i nodau yw creu Cymru â diwylliant bywiog gyda'r Gymraeg yn ffynnu a lle mae cymdeithas yn hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Mae'n nodi carreg filltir bwysig i'r iaith, gan danlinellu ei statws swyddogol.</p>

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

Dogfen	Crynodeb
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015	<p>Daeth y Ddeddf hon yn gyfraith yng Nghymru ar 6 Gorffennaf 2015 ac mae'n gwneud darpariaethau eang.</p> <p>Mae Adrannau 11 a 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae Adran 11 y Ddeddf yn ei gwneud yn orfodol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried effaith eu cynlluniau datblygu ar yr iaith Gymraeg. Mae Adran 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ystyriaethau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg, cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r cais, gael eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio.</p> <p>Gyda'i gilydd, mae'r ddwy adran yn sicrhau bod ystyriaeth gyson a phriodol yn cael ei rhoi i'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.</p>

### 1.4.4 Fframweithiau polisi iaith a pholisïau cynllunio cenedlaethol

Tabl 1.2: Fframweithiau polisi deddfwriaeth iaith a pholisïau cynllunio cenedlaethol.

Dogfen	Crynodeb
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11)	<p>Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cydnabod bod y Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru, a bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i hannog i ffynnu fel iaith i lawer o gymunedau ledled Cymru.</p> <p>Mae'r Gymraeg yn rhan o'r gwead cymdeithasol a diwylliannol, a bydd ei lles yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau a lleoedd sy'n ffynnu. Dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg ac, wrth wneud hynny, gyfrannu at ei defnydd a'r nod llesiant Cymraeg sy'n Ffynnu.</p>
Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r iaith Gymraeg	<p>Mae TAN 20 yn rhoi arweiniad ynghylch sut dylai'r system gynllunio ystyried goblygiadau'r Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ac wrth wneud penderfyniadau. Dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried anghenion a lles y Gymraeg, a drwy wneud hynny, gyfrannu at ei lles.</p> <p>Mae'n cydnabod bod y Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Bydd dyfodol yr iaith ledled Cymru yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau y tu hwnt i system gynllunio gwlad a thref, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn er mwyn cynnal cymunedau cynaliadwy sy'n ffynnu.</p> <p>Mae'n cynghori ar rôl y system cynllunio defnydd tir i gyfrannu at ffyniant yr iaith Gymraeg yn y dyfodol drwy sefydlu'r amodau i ganiatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu.</p> <p>Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau, gellid rhoi sylw i ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, cyn belled â'u bod yn berthnasol. Nid yw Adran 70(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi unrhyw bwys ychwanegol ar y Gymraeg uwchlaw unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, ac mae'n rhaid i benderfyniadau ar yr holl geisiadau am ganiatâd cynllunio fod yn seiliedig ar resymau cynllunio yn unig a bod yn rhesymol.</p>
Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040	<p>Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod bod y Gymraeg yn iaith fyw a'r uchelgais i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol yn cefnogi twf cynaliadwy. Nid oes gan unrhyw le heb swyddi, cartrefi, mannau cymunedol na bywyd gwylt unrhyw obaith o gael cymuned, economi neu Gymraeg ffyniannus a chydlynol.</p> <p>Yn y Gogledd (sy'n cynnwys Conwy), mae 41.9% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg; cynnydd o 2.4% ers 2009.</p> <p>Mae Cymru'r Dyfodol yn cynghori y dylai cynlluniau datblygu gynnwys hierarchaethau aneddiadau a strategaethau i ddosbarthu twf mewn ffordd sy'n creu amodau i'r Gymraeg ffynnu, a'i chadw fel iaith gymunedol yn y mannau niferus lle mae bywyd dydd i ddydd yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>

## 1.4.5 Strategaethau iaith cenedlaethol

**Tabl 1.3: Strategaethau iaith cenedlaethol.**

Dogfen	Crynodeb
<i>Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (Llywodraeth Cymru, 2017)</i>	<p>Cafodd y strategaeth ei lansio ar 10 Gorffennaf 2017 ac mae'n nodi gweledigaeth a blaenoraiathau strategol Llywodraeth Cymru ar sut i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p> <p>Mae'r strategaeth yn dweud bod "<i>yr her o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol</i>".</p> <p>Mae tair thema strategol wedi'u nodi yn y strategaeth er mwyn gwireddu'r weledigaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg</li> <li>• Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg</li> <li>• Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.</li> </ul>

## 1.4.6 Polisiau a chanllawiau cynllunio lleol

1.4.6.1 Mae ardaloedd yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol (fel y'u diffinnir yn adran 1.7.1 yr AEGG hwn) i'w hystyried yn yr AEGG hwn yn cynnwys ardaloedd daearyddol ar draws gogledd Cymru sy'n cynnwys siroedd Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

**Tabl 1.4: Polisiau a chanllawiau cynllunio lleol.**

Dogfen	Crynodeb
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2016. Datganiad Ysgrifenedig (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, 2017)	Mae Datganiad Ysgrifenedig Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2016 yn cynnwys polisi penodol i roi sylw i'r Gymraeg, a pholisiau eraill i hybu'r gwaith o ddiogelu a chryfhau'r Gymraeg. Mae'r polisiau yn ceisio hwyluso'r math o ddatblygiad a all greu'r amgylchiadau cywir i gyfrannu tuag at gynnal a chreu cymunedau sy'n siarad Cymraeg. Mae polisiau yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau ystyried mesurau i wella a diogelu'r iaith a'i diwylliant.
Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 2013)	Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy yn cynnwys polisi penodol i roi sylw i'r Gymraeg, a pholisiau eraill i hybu'r gwaith o ddiogelu a chryfhau'r Gymraeg. Mae'r polisiau yn gofyn am ddatblygu i gefnogi a chynnal lles hirdymor y Gymraeg.
Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 2019)	Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri yn cynnwys polisi penodol i roi sylw i'r Gymraeg, a pholisiau eraill i hybu'r gwaith o ddiogelu a chryfhau'r Gymraeg. Mae'r polisiau'n ceisio hwyluso'r math o ddatblygu sy'n cynnal neu'n cryfhau'r Gymraeg.
Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 (Cyngor Sir Ddinbych, 2013)	Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn cynnwys polisi penodol i roi sylw i'r Gymraeg, a pholisiau eraill i hybu'r gwaith o ddiogelu a chryfhau'r Gymraeg. Mae'r polisiau'n ceisio hwyluso'r math o ddatblygu sy'n cynnal neu'n cryfhau'r Gymraeg.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

Dogfen	Crynodeb
Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030 (Cyngor Sir y Fflint, 2023)	Un o amcanion Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint yw gwella bywyd cymunedol, gan gynnwys diogelu a chefnogi'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun yn cynnwys polisi penodol i roi sylw i'r Gymraeg.
Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam 1996-2011 (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, 2005)	Un o amcanion Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam yw gwella ansawdd bywyd ei drigolion, gan gynnwys hyrwyddo'r Gymraeg i hybu cymdeithas ddwyieithog. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun yn cynnwys polisi penodol i roi sylw i'r Gymraeg.
Canllawiau Cynllunio Atodol 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, 2019)	Mae'r Canllawiau Atodol a restrir yma yn cynnig arweiniad ar sut bydd yr awdurdod cynllunio yn gwneud penderfyniadau ynglŷn ag effeithiau'r datblygiadau arfaethedig ar y Gymraeg ac yn rhoi cyngor ar y wybodaeth ategol a all fod yn ofynnol gyda cheisiadau cynllunio unigol.
Canllawiau Cynllunio Atodol 'CDLI6: Yr Iaith Gymraeg' (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 2014)	
Canllawiau Cynllunio Atodol 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 2021)	
Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' (Cyngor Sir Ddinbych, dyddiad cyhoeddi anhysbys)	
Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Lleol Rhif 31 'Yr Iaith Gymraeg a Chymunedau Cymraeg' (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, dyddiad cyhoeddi anhysbys)	

### 1.4.7 Strategaethau iaith lleol

Tabl 1.5: Strategaethau iaith lleol.

Dogfen	Crynodeb
Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023 (Cyngor Gwynedd, 2018)	Mae'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn ehangach yn ystod y cyfnod pum mlynedd dan sylw. Y nod yw sicrhau bod pob preswylydd yn gallu byw mewn cymuned lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd.
Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2021)	Mae'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn ehangach yn ystod y cyfnod pum mlynedd dan sylw. Y weledigaeth yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o leiaf 325 erbyn 2026, gan wrthdroi'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr rhwng 2001 a 2011.
Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022 (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, dyddiad cyhoeddi anhysbys)	Mae'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn ehangach yn ystod y cyfnod pum mlynedd dan sylw. Y weledigaeth yw atal y difywiad a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg 2% dros gyfnod y strategaeth.
Strategaeth Iaith Gymraeg 2023-28 Sir Ddinbych (Cyngor Sir Ddinbych, 2023)	Mae'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn ehangach yn ystod y cyfnod pum mlynedd dan sylw. Y nod yw atal y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a sicrhau bod y Gymraeg yn iaith ffyniannus ar draws Sir Ddinbych.
Strategaeth Pum Mlynedd i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 2019-2024 (Cyngor Sir y Fflint, 2019)	Mae'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn ehangach yn ystod y cyfnod pum mlynedd dan sylw. Y nod yw hyrwyddo, cefnogi a diogelu'r Gymraeg er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol, a chynyddu nifer y siaradwyr o 13.2% i 15% (2,548 o siaradwyr ychwanegol) dros gyfnod y strategaeth.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

Dogfen	Crynodeb
Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-2027 (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, 2022)	Mae'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn ehangach yn ystod y cyfnod pum mlynedd dan sylw. Y weledigaeth yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir i 12.9%; hwyluso, cynyddu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol, a rhoi cyfle i drigolion fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant; a sicrhau gwell dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg ymysg preswylwyr di-Gymraeg.

### 1.4.8 Canllawiau perthnasol eraill

Tabl 1.6: Canllawiau perthnasol eraill.

Dogfen	Crynodeb
Cynllunio a'r laith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005)	<p>Y ddogfen hon yw'r gwaith a gwblhawyd gan gonsortiwm o sefydliadau a oedd yn cynnwys awdurdodau lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai a Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen yn cynrychioli ymdrechion yr holl bartneriaid sydd â diddordeb mewn datblygu dealltwriaeth well o'r berthynas rhwng cynllunio defnydd tir a'r iaith Gymraeg er mwyn hybu lles yr iaith a chymeriad diwylliannol cymunedau lleol. Nid yw'r ddogfen hon yn cynrychioli safbwyt polisi cynllunio unrhyw un o'r cyrff a gymerodd ran.</p> <p>Mae'r ddogfen yn darparu canllawiau ar yr arferion gorau. Mae'r canllawiau arferion gorau yn cael eu hadlewyrchu yn y canllawiau cynllunio atodol sy'n ymwnheud â'r Gymraeg ar gyfer yr awdurdodau cynllunio lleol Eryri, Conwy, Sir Ddinbych a Wrecsam.</p>

## 1.5 Ymgynghoriad

- 1.5.1.1 Er mwyn sicrhau ymgysylltiad cynnar â chymunedau, cynhaliodd yr Ymgeisydd gam cyntaf o ymgynghori anstatudol rhwng 07 Mehefin a 03 Awst 2022, lle cyflwynwyd ardaloedd chwilio ar gyfer y seilwaith trawsyrru ar y môr, y llwybrau ceblau ar y tir ac is-orsafoedd.
- 1.5.1.2 Rhwng 26 Medi a 07 Tachwedd 2022, cynhalwyd ail ymgynghoriad anstatudol wedi'i dargedu, a oedd yn canolbwytio ar leoliadau posib ar gyfer yr is-orsaf ar y tir.
- 1.5.1.3 Cynhalwyd trydydd ymgynghoriad y Ceisydd – ei ymgynghoriad statudol – rhwng 19 Ebrill a 04 Mehefin 2023 ac roedd yn seiliedig ar yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol. Mae'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol yn nodi canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol hyd at y pwynt hwnnw, a'r adborth a gafwyd yn ystod y tri cham ymgynghori.
- 1.5.1.4 Yn dilyn ymgynghoriad statudol, adolygodd y Ceisydd yr holl adborth a gafwyd ac aeth ati i ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid technegol fel rhan o brosesau parhaus yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Ar ôl adolygu'r adborth hwn, arolygon parhaus, asesiadau ac astudiaethau technegol, rhoddodd y Ceisydd newidiadau dylunio ar waith. Cyhoeddwyd y newidiadau hyn ar gyfer y gwraith ar y tir ac ar y môr ym mis Awst a mis Medi 2023.
- 1.5.1.5 Cafodd yr ymgynghoriad statudol ei ymestyn yn ystod hydref/gaeaf 2023 i ymgysylltu ag ymgynghoreion newydd. Roedd hyn yn cynnwys grwpiau cymunedol a thirfeddianwyr. Mae rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad a gynhalwyd wedi'i nodi yn yr Adroddiad Ymgynghori (Cyfeirnod Dogfen E3). Ni chodwyd unrhyw sylwadau yngylch y Gymraeg yn ystod yr ymgynghoriadau hyn mewn perthynas â Phrosiect Gwynt Alltraeth Mona.

## 1.6 Y Prosiect yn Gyffredinol

- 1.6.1.1 Mae'r Cytundeb Lesio ar gyfer Ardal Aráe Mona yn cynnwys tua  $500 \text{ km}^2$  ac mae wedi'i leoli yn nwyrain Môr Iwerddon, 28.2 km (15.2 nm) o arfordir Ynys Môn, 39.9 km (21.5 nm) o arfordir gogledd orllewin Lloegr, a 42.3 km (22.8 nm) o Ynys Manaw (wedi'i fesur o Benllanw Cymedrig y Gorllanw (MHWS)).
- 1.6.1.2 Ar ôl nodi safle'r Cytundeb Lesio, mae Prosiect Gwynt Alltraeth Mona wedi mireinio'r ardal ar gyfer datblygu o ardal y Cytundeb Lesio (yr ymgynghorwyd arni yn yr Ymgynghoriad Statudol) i Ardal Aráe Mona, ardal o tua  $300 \text{ km}^2$  sy'n cael ei chyflwyno yn y Datganiad Amgylcheddol. Mae Ardal Aráe Mona 28.8 km (15.6 nm) o arfordir gogledd Ynys Môn, 46.5 km (25.1 nm) o arfordir gogledd orllewin Lloegr, a 46.6 km (25.2 nm) o Ynys Manaw (wedi'i fesur o Benllanw Cymedrig y Gorllanw (MHWS)).
- 1.6.1.3 Bydd y ceblau allforio ar y môr yn dod i'r lan ger Llanddulas, Conwy ar arfordir gogledd Cymru a cheir cysylltiad ag is-orsaf bresennol y National Grid ym Modelwyddan, Sir Ddinbych.
- 1.6.1.4 Bydd gan Ardal Aráe Mona hyd at 96 tyrbina gwynt ar y môr mewn ardal o tua  $300 \text{ km}^2$  yn nyfroedd môr mawr Cymru (dros 12 nm o arfordir Cymru). Bydd y seilwaith ar y môr hefyd yn cynnwys hyd at 360 km o geblau allforio ar y môr, 50 km o geblau rhyng-gysylltu a 325 km o geblau rhyng-aráe.
- 1.6.1.5 Dyma rai o brif elfennau Prosiect Gwynt Alltraeth Mona:
- Tyrbinau gwynt ar y môr

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

- Sylfeini (ar gyfer tyrbinau gwynt a phlatformau is-orsaf ar y môr)
- Gosod deunyddiau i atal erydu
- Ceblau rhyng-aráe sy'n cysylltu'r tyrbinau gwynt unigol â'r platformau is-orsaf ar y môr
- Cysylltiadau ag Is-orsaf bresennol y National Grid ym Modelwyddan
- Compowndiau adeiladu dros dro, gan gynnwys mannau storio
- Ffurdd mynediad parhaol a rhai dros dro
- System drawsyrru Cerrynt Eiledol Foltedd Uchel, gan gynnwys seilwaith ar y môr ac ar y tir:
- Platfformau is-orsaf ar y môr
- Cebl(au) rhyng-gysylltu ar y môr
- Cebl(au) allforio ar y môr
- Cebl(au) allforio ar y tir
- Is-orsaf ar y tir
- Cebl 400 kV i gysylltu â'r grid
- Cysylltiad ag is-orsaf National Grid Bodelwyddan.

## 1.7 Dull asesu

### 1.7.1 Cyd-destun y fethodoleg

1.7.1.1 Mae'r canllawiau a'r strategaethau polisi cynllunio lleol a chenedlaethol wedi cyfrannu at y dull o ystyried yr effeithiau a ddefnyddiwyd yn yr AEGG hwn. Mae pob un ohonynt wedi'u mabwysiadu, heblaw am Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005):

- Canllawiau Cynllunio Atodol 'CDLI6: Yr Iaith Gymraeg' (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 2014)
- Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' (Cyngor Sir Ddinbych, dyddiad cyhoeddi anhysbys)
- TAN 20 – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017).

1.7.1.2 Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005) yn cynnig arweiniad arferion gorau ar faterion y gellid eu hystyried mewn Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg ar gyfer datblygiadau penodol i brosiect. Mae'r arweiniad hwn wedi cael ei atgynhyrchu yn y canllawiau cynllunio atodol sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Sir Ddinbych.

1.7.1.3 Mae Polisi CTH/5 – 'Yr Iaith Gymraeg' yng Nghynllun Datblygu Lleol Conwy yn nodi y dylai Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg ategu datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristiaeth ar safleoedd heb eu dyrannu sydd ag arwynebedd o 2000 metr sgwâr neu fwy yn ardal y Cynllun. Felly, mae AEGG wedi cael ei baratoi yn unol â hynny.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

- 1.7.1.4 Mae Polisi RD5 – ‘Yr Iaith Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau’ Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn nodi y dylai Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg ategu datblygiad masnachol, diwydiannol, hamdden neu dwristiaeth o 3000 metr sgwâr neu fwy, neu brosiectau seilwaith sy'n cael effeithiau hirdymor ar y gymuned.
- 1.7.1.5 Gan fod elfennau ar y tir o Brosiect Gwynt Alltraeth Mona wedi'u lleoli yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych, mae'r asesiad a gyflwynir yn yr AEGG hwn wedi cael ei gynnal yn unol â'r fethodoleg a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ‘CDLI6: Yr Iaith Gymraeg’ a ‘Cynllunio a'r Iaith Gymraeg’ (Cyngor Sir Ddinbych, dyddiad cyhoeddi anhysbys).

### **1.7.2 Y fethodoleg fanwl**

- 1.7.2.1 Mae'r fethodoleg ganlynol wedi cael ei mabwysiadu i gynnal yr AEGG hwn ac i ddarparu amserlen o gyfleoedd a chyfyngiadau ieithyddol, effeithiau posib ac i gyfrannu at y dull arfaethedig ar gyfer datblygu mesurau lliniaru a/neu wella.

#### **Cam 1: Sefydlu gwaelodlin**

- 1.7.2.2 Mae tystiolaeth wedi cael ei chasglu i gyfrannu at yr AEGG hwn er mwyn cyflwyno dealltwriaeth o nodweddion a phroffil y boblogaeth, a sefyllfa bresennol y Gymraeg a'i diwylliant yn ardaloedd yr astudiaeth. Cyflwynir y data a gasglwyd yn adrannau 1.8 ac 1.9 y ddogfen hon.

#### **Cam 2: Dadansoddiad o effeithiau Prosiect Gwynt Alltraeth Mona ar y llinell sylfaen**

- 1.7.2.3 Mae'r data llinell sylfaen sydd wedi'i gasglu wedi cael ei ddadansoddi er mwyn ystyried i ba raddau a sut (o ran effeithiau niweidiol a manteisiol) y byddai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ardal yr astudiaeth.
- 1.7.2.4 Er bod amrywiadau sylweddol yng nghyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ar draws ardal yr astudiaeth yng ngogledd Cymru, cydnabyddir bod gwarchod, gwella a hyrwyddo'r Gymraeg yn flaenorïaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn eu Strategaethau Iaith Gymraeg. Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth glir ar gyfer gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru hefyd, ac mae *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* (Llywodraeth Cymru, 2017) yn pennu blaenorïaethau strategol ar sut mae gwreddu'r weledigaeth a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- 1.7.2.5 Mae'r AEGG yn asesu effeithiau tebygol camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn erbyn pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol er mwyn sefydlu'r effeithiau ar y gymuned yn gyffredinol ac ar y Gymraeg a'i diwylliant yn fwy penodol. Dyma'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol:

- Nodweddion y boblogaeth
- Ansawdd bywyd
- Ffactorau economaidd
- Cyflenwad seilwaith ac addysg
- Agweddau cymdeithasol a diwylliannol.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

1.7.2.6 Mae'r asesiad yn cynnwys 11 o gwestiynau sy'n ymwneud â'r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol, sef:

- Nodweddion y boblogaeth
  - C1. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o arwain at gynnydd/gostyngiad yn y boblogaeth?
  - C2. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo neu allfudo?
  - C3. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o arwain at newid strwythur oedran yr ardal gymunedol?
- Ansawdd bywyd
  - C4. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o gael effaith ar ansawdd bywyd pobl lleol?
- Ffactorau economaidd
  - C5. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau a swyddi lleol?
  - C6. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd yn y gymuned (neu'r ardal ehangach)?
  - C7. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o gael effaith ar lefelau cyflog lleol a/neu brisiau tai?
- Cyflenwad seilwaith
  - C8. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau a seilwaith lleol?
- Agweddau cymdeithasol a diwylliannol
  - C9. A oes gan Brosiect Gwynt Alltraeth Mona botensial i arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol yn y gymuned (Gymraeg)?
  - C10. A allai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona arwain at newidiadau i draddodiadau/diwylliant Gymraeg?
  - C11. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o gael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned?

1.7.2.7 Mae pob cwestiwn yn cyflwyno asesiad o'r effaith ddisgwylledig. Mae'r asesiad o'r effaith yn gwbl oddrychol ar sail gwybodaeth sylfaenol, tystiolaeth flaenorol a barn broffesiynol, a'i fwriad yw nodi'r effeithiau sy'n debygol o ddigwydd yn sgil Prosiect Gwynt Alltraeth Mona. Mae'r aseswr yn terfynu asesiad pob cwestiwn drwy nodi effaith gyffredinol fanteisiol, niwtral neu niweidiol.

### **Cam 3: Datblygu mesurau lliniaru a gwella**

1.7.2.8 Pan fydd effeithiau niweidiol a manteisiol posib yn cael eu nodi yn yr asesiad, mae mesurau i lliniaru effeithiau niweidiol ac i wella effeithiau manteisiol yn cael eu cynnig.

### **1.7.3 Ardaloedd yr astudiaeth**

1.7.3.1 Oherwydd y rhngddibyniaethau rhwng effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant ac effeithiau economaidd-gymdeithasol, mae'r ardaloedd daearyddol a gofodol a ddefnyddiwyd yn yr AEGG yn seiliedig ar y rheini sydd wedi'u defnyddio ar gyfer yr

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

asesiad economaidd-gymdeithasol, i'r graddau y maen nhw'n berthnasol i'r ystyriaeth o'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant yng Nghymru.

- 1.7.3.2 Mae'r cwmpas gofodol ar gyfer asesu effeithiau yn ofyniad allweddol ar gyfer yr holl asesiad. Mae effaith Prosiect Gwynt Alltraeth Mona ar y Gymraeg a'i diwylliant yn dibynnu'n fawr ar y gweithlu sydd ei angen, yn enwedig nifer y gweithwyr a'u dosbarthiad daearyddol.
- 1.7.3.3 Mae ardaloedd yr astudiaeth ar gyfer yr AEGG wedi'u cyflwyno isod.

### Ardaloedd cenedlaethol yr astudiaeth – ar y môr ac ar y tir

- 1.7.3.4 Cyfrol 8, Atodiad 3.1: Mae adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F8.3.1) yn nodi, o ystyried yr ystod o ofynion sy'n gysylltiedig â chyflawni Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, ei bod yn debygol y bydd gwariant y prosiect yn arwain at effeithiau o wahanol faint mewn lleoliadau ledled Cymru a'r DU.
- 1.7.3.5 Diffinnir ardaloedd cenedlaethol yr astudiaeth economaidd i adlewyrchu cyrhaeddiad ehangach yr effeithiau ar gyflogaeth a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) a allai ddod i'r amlwg drwy'r gadwyn gyflenwi a'r galw am lafur.
- 1.7.3.6 Mae dwy ardal genedlaethol ar gyfer yr astudiaeth economaidd wedi cael eu diffinio yng Nghyfrol 8, Atodiad 3.1: Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F8.3.1), gan gynnwys Cymru a'r DU. At ddibenion asesu effeithiau economaidd yn yr AEGG hwn, bydd Cymru'n cael ei defnyddio fel ardal genedlaethol yr astudiaeth.

### Ardaloedd is-genedlaethol yr astudiaeth economaidd – asesiad ar y môr

- 1.7.3.7 Yng Nghyfrol 8, Atodiad 3.1: Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F8.3.1), mae'r ardal is-genedlaethol yr astudiaeth ar gyfer yr asesiad ar y môr yn canolbwytio ar lleoliadau yn awdurdodaethau cynllunio perthnasol Cymru a Lloegr sy'n agos i Fôr Iwerddon; gan ystyried gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Yng ngoleuni hyn ac at ddibenion yr AEGG hwn, bydd yr asesiad ar y môr o'r effeithiau ar ffactorau economaidd yn canolbwytio ar ardal is-genedlaethol yr astudiaeth, sef gogledd Cymru.
- 1.7.3.8 Fel y nodir yng Nghyfrol 8, Atodiad 3.1: Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F8.3.1), bydd gan y gwahanol gydrannau sy'n cyfrannu at gyflawni Prosiect Gwynt Alltraeth Mona wahanol 'ganolbwytiau effaith' – lleoliadau y mae'r effeithiau posib yn 'ymledu' ohonynt a lle gellir cysylltu'r effeithiau economaidd yn ddaearyddol ag amrywiaeth o ganolbwytiau, gan gynnwys porthladdoedd adeiladu, gweithredu, a chynnal a chadw.
- 1.7.3.9 Mae ardaloedd is-genedlaethol yr astudiaeth economaidd yn gysylltiedig â dewis porthladdoedd adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu posib yng ngogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr sydd â'r gallu i gefnogi'r cyflenwad cysylltiedig o fewnbynnau a gwasanaethau ar gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Mona. Mae'r porthladdoedd hyn, a'u dalgylchoedd economaidd-gymdeithasol, yn ganolbwytiau posib yr effaith ar dderbynyddion economaidd. Oherwydd gofynion seilwaith cydrannau mawr (ee mannau gosod a storio), mae'n debygol y bydd nifer o borthladdoedd saernïo a threfnu yn cael eu defnyddio wrth gyflawni'r prosiect. Mae hyn yn debygol iawn o gynnwys porthladdoedd y tu allan i ogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr.

### **Ardaloedd rhanbarthol yr astudiaeth economaidd – asesiad ar y tir**

- 1.7.3.10 Mae'r seilwaith parhaol ar y tir ar gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn cynnwys y lanfa, Coridor Ceblau Ar y Tir Mona, Is-orsaf ar y Tir Mona, a Choridor Cysylltiad Grid 400 kV Mona a fydd yn cysylltu Prosiect Gwynt Alltraeth Mona â'r National Grid (ym Modelwyddan). Ystyrir mai'r lleoliad hwn yw'r 'canolbwyt effaith' ar gyfer yr asesiad ar y tir.
- 1.7.3.11 Mae'r Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol (Cyfrol 8, Atodiad 3.1: Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F8.3.1)) yn nodi gogledd Cymru fel ardal yr astudiaeth economaidd at ddibenion asesu effeithiau posib ar y tir. Bydd yr AEGG hwn hefyd yn defnyddio gogledd Cymru fel ardal yr astudiaeth ar gyfer asesu effeithiau posib ar y tir mewn perthynas â ffactorau economaidd.

### **Ardaloedd yr astudiaeth gymdeithasol**

- 1.7.3.12 Mae'r Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol (Cyfrol 8, Atodiad 3.1: Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F8.3.1)) yn nodi bod achos mwyaf tebygol effeithiau cymdeithasol yn gysylltiedig â goblygiadau effeithiau economaidd, hy symud llafur. Ni chaiff effeithiau cymdeithasol eu hasesu ar lefel genedlaethol.

### **Ardaloedd rhanbarthol yr astudiaeth gymdeithasol – asesiad ar y môr**

- 1.7.3.13 Cyfrol 8, Atodiad 3.1: Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F8.3.1)) yn nodi gogledd Cymru fel ardal ranbarthol yr astudiaeth gymdeithasol ar gyfer yr asesiad ar y môr ar sail dalgylch amser gyrru o 60 munud ar gyfer porthladdoedd.
- 1.7.3.14 Mae ardal ranbarthol yr astudiaeth gymdeithasol, gogledd Cymru, a nodwyd ac a ddefnyddiwyd yng Nghyfrol 8, Atodiad 3.1: Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F8.3.1) hefyd wedi cael ei defnyddio at ddibenion yr AEGG hwn o ran asesu'r effeithiau ar y môr ar nodweddion y boblogaeth, ansawdd bywyd, cyflenwad seilwaith, ac agweddu cymdeithasol a diwylliannol.

### **Ardaloedd rhanbarthol yr astudiaeth gymdeithasol – asesiad ar y tir**

- 1.7.3.15 Pennwyd hyd a lled ardal yr astudiaeth economaidd ar y tir ar sail dalgylchoedd llafur gan ddefnyddio dalgylch amser gyrru o 60 munud. Cyfrol 8, Atodiad 3.1: Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F8.3.1)) yn nodi gogledd Cymru fel ardal ranbarthol yr astudiaeth gymdeithasol ar gyfer yr asesiad ar y tir.
- 1.7.3.16 Mae ardal ranbarthol yr astudiaeth gymdeithasol, gogledd Cymru, a nodwyd ac a ddefnyddiwyd yng Nghyfrol 8, Atodiad 3.1: Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F8.3.1) hefyd wedi cael ei defnyddio at ddibenion yr AEGG hwn o ran asesu'r effeithiau ar y tir ar nodweddion y boblogaeth, ansawdd bywyd, cyflenwad seilwaith, ac agweddu cymdeithasol a diwylliannol.

## **1.8 Ardal yr astudiaeth o broffil y Gymraeg**

### **1.8.1 Trosolwg**

1.8.1.1 Mae'r elfennau ar y tir o Brosiect Gwynt Alltraeth Mona mewn wardiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae ardaloedd yr astudiaeth at ddibenion yr AEGG hwn yn adlewyrchu'r ardaloedd astudiaeth a ddefnyddiwyd yn yr asesiad economaidd-gymdeithasol, sef Cymru ar lefel genedlaethol a gogledd Cymru fel rhanbarth. Mae data ar gyfer Cymru ac awdurdodau gogledd Cymru, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, wedi cael eu cynnwys fel data llinell sylfaen.

### **1.8.2 Nodweddion y boblogaeth**

#### **Poblogaeth breswyl**

1.8.2.1 Mae Tabl 1.7 yn dangos poblogaeth breswyl yr ardaloedd astudiaeth gogledd Cymru a Chymru yn 2011 a 2021.

**Tabl 1.7: Poblogaeth breswyl 2011 a 2021.**

Ardal	Poblogaeth breswyl	
	2011	2021
Conwy	115228	114741
Sir Ddinbych	93734	95817
Sir y Fflint	152506	154962
Gwynedd	121874	117393
Ynys Môn	69751	68878
Wrecsam	134844	135117
Gogledd Cymru	687937	686908
Cymru	3063456	3107494

1.8.2.2 Gellir gweld bod poblogaeth gogledd Cymru a rhai awdurdodau wedi lleihau rhwng 2011 a 2021, gan gynnwys Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, a bod poblogaeth Cymru ac awdurdodau Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam wedi cynyddu. Yr awdurdodau hyn yw'r awdurdodau mwyaf dwyreiniol ar draws gogledd Cymru ac maen nhw'n agosach i ganolfannau poblogaeth mwy. Cynyddodd poblogaeth Cymru rhwng 2011 a 2021 i boblogaeth o 3,107,500, sef y boblogaeth fwyaf a gofnodwyd erioed drwy Gyfrifiad yng Nghymru.


1.8.2.3 Mae data misol a gasglwyd yn dangos bod nifer y marwolaethau a gofrestrwyd yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2011 a diwedd mis Mawrth 2021 yn fwy na nifer y genedigaethau byw, sy'n golygu gostyngiad naturiol o tua 11,000 o breswylwyr arferol ledled Cymru. Felly, mudo net positif i Gymru yw'r rheswm am y twf yn y boblogaeth ers 2011.

1.8.2.4 Felly, rheswm posib am y gostyngiad yn y boblogaeth ar draws gogledd Cymru gyfan, yng Nghonwy, Gwynedd ac Ynys Môn, yw cyfraddau marwolaeth sy'n uwch na'r cyfraddau geni byw yn y siroedd.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

### Mudo

- 1.8.2.5 Mae Ffigur 1.1 yn darparu data mudo net ar gyfer gogledd Cymru rhwng 2001 a 2020. Rhwng 2001 a 2020 mae Cymru wedi gweld mewnlif cyffredinol o bobl o bob oed. Fodd bynnag, mae gogledd Cymru wedi gweld all-lif net o bobl iau rhwng 15 a 29 oed rhwng 2001 a 2019. Dim ond yn 2020 y gwelodd yr ardaloedd gynnydd net mewn mudo ymysg pobl ifanc 15 i 64 oed, a allai fod yn gysylltiedig â chyfyngiadau symud pandemig COVID-19 a mwy o allu i weithio o bell (ac felly bod gan bobl fwy o ryddid i fyw lle bynnag yr hoffent).
- 1.8.2.6 Mae'r rhesymau posib am allfudo cyson y boblogaeth ifanc rhwng 2011 a 2019 yn cynnwys diffyg cyfleoedd cyflogaeth a diffyg tai fforddiadwy.



Ffigur 1.1: Ffigurau mudo poblogaeth net gogledd Cymru yn ôl carfannau oedran 2001-2020

### 1.8.3 Proffil y Gymraeg

#### Siaradwyr Cymraeg

- 1.8.3.1 Mae Tabl 1.8 yn dangos nifer y siaradwyr Cymraeg a'r ganran o gyfanswm y boblogaeth (dros 3 oed) yng ngogledd Cymru yn 2011 ac yn 2021.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

**Tabl 1.8: Nifer y siaradwyr Cymraeg a'r ganran o gyfanswm y boblogaeth (dros 3 oed) 2011-2021.**


Sir	2011		2021				Gwahaniaeth yn nifer / % y siaradwyr Cymraeg
	Cyfanswm y boblogaeth	Siaradwyr Cymraeg	Cyfanswm y boblogaeth	Siaradwyr Cymraeg	Nifer	% o gyfanswm y boblogaeth	
	Nifer	Nifer	% o gyfanswm y boblogaeth	Nifer	Nifer	% o gyfanswm y boblogaeth	
Conwy	111724	30600	27.4	111805	29000	25.9	-1,600/-1.5%
Sir Ddinbych	90527	22236	24.6	93065	20949	22.5	-1,287/-2.1%
Sir y Fflint	146940	19343	13.2	150563	17426	11.6	-1,917/-1.6%
Gwynedd	117789	77000	65.4	114300	73554	64.4	-3,446/-1%
Ynys Môn	67403	38568	57.2	67086	37413	55.8	-1,155/-1.4%
Wrecsam	129425	16659	12.9	131084	15953	12.2	-706/-0.7%
Gogledd Cymru	663808	204406	30.8	667903	194295	29.1	- 10,111/- 1.7%
Cymru	2955841	562016	19.0	3018167	538291	17.8	-23,725/ - 1.2%

- 1.8.3.2 Mae nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ar draws holl awdurdodau gogledd Cymru yn unigol, gogledd Cymru yn gyffredinol yn ogystal â Chymru fel gwlad. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf o ran cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych, gyda gostyngiad o 2.1%.
- 1.8.3.3 Mae cyfran sylweddol uwch o boblogaeth Gwynedd ac Ynys Môn a oedd yn siarad Cymraeg yn 2011 a 2021; 64.4% a 55.8% yn y drefn honno yn 2021. Gwelodd y ddwy sir hyn hefyd ostyngiad yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021.
- 1.8.3.4 Roedd y gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint a Wrecsam; 11.6% a 12.2% yn y drefn honno yn 2021. Mae'r siroedd hyn yn ddaearyddol nes at y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y ddwy sir hyn hefyd yn is na chyfartaedd cenedlaethol Cymru, sef 17.8%. Mae hyn yn sylweddol is na chyfran y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
- 1.8.3.5 Roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn is na'r cyfartaedd ar draws gogledd Cymru, gan amrywio o 22.5% yn Sir Ddinbych, 25.9% yng Nghonwy a 29.1% ar draws y Gogledd.

### Sgiliau iaith Gymraeg

- 1.8.3.6 Mae Ffigur 1.2 yn dangos y ganran o'r boblogaeth dros 3 oed ag un neu ragor o sgiliau Cymraeg, yn ôl ardal, yn 2011 a 2021.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA



**Ffigur 1.2: Canran o gyfanswm y boblogaeth dros 3 oed ag un neu ragor o sgiliau Cymraeg, yn ôl ardal, yn 2011 a 2021.**

1.8.3.7 Mae cyfran y boblogaeth dros 3 oed ag un neu fwy o sgiliau Cymraeg wedi gostwng ar draws pob ardal rhwng 2011 a 2021, ac eithrio yng Ngwynedd lle gwelwyd cynnydd bach o 0.3%. Gwelodd Ynys Môn ostyngiad bach iawn rhwng 2011 a 2021 tra bod ardaloedd eraill wedi gweld lefelau tebyg o ddirywiad.

## 1.9 Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

### 1.9.1 Cyflwyniad

1.9.1.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno effeithiau posib Prosiect Gwynt Alltraeth Mona ar y gymuned, y Gymraeg a'i diwylliant.

### 1.9.2 Nodweddion y boblogaeth

#### C1. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o arwain at gynnydd/gostyngiad yn y boblogaeth a allai wneud y canlynol:

- Effeithio ar y cydwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg (mewn modd niweidiol/manteisiol) neu
- Arwain at ddirywiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

#### C2. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo neu allfudo?

- Sut bydd hyn yn effeithio ar nifer y siaradwyr Cymraeg?
- A fyddai'r newid yn un parhaol neu'n un dros dro?

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

1.9.2.1 Gall datblygiad newydd ddylanwadu ar symudiadau'r boblogaeth mewn ardal. Gall gael effaith gadarnhaol drwy sefydlogi poblogaethau neu hybu twf drwy fewnfudo. Fodd bynnag, gall lefelau sylweddol o fudo, i mewn neu allan, gael effaith niweidiol ar gydbwysedd cymdeithasol ardal, ac o ganlyniad, gall ddylanwadu ar nodweddion allweddol cymuned fel y defnydd o'r Gymraeg.

1.9.2.2 Mae patrymau mudo yn rhan allweddol o newid mewn poblogaeth, ac mae mewnfudo'n dibynnu'n fawr ar amodau economaidd. Mae allfudo'n gysylltiedig yn aml â thueddiadau economaidd, y ddarpariaeth tai a phrisiau tai.

### Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

#### Cam adeiladu – ar y môr

1.9.2.3 Mae cam adeiladu ar y môr pedair blynedd (48 mis) wedi cael ei dybio yn yr AEGG drwyddo draw (gweler Cyfrol 1, Pennod 3: Disgrifiad o'r prosiect y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Ddogfen F3.1)).

1.9.2.4 Gallai cyfleusterau'r prif borthladd adeiladu posib gefnogi'r gweithgareddau canlynol:

- Cadw a gosod tyrbinau gwynt
- Cadw a gosod sylfeini
- Cadw a gosod is-orsaf ar y môr
- Cadw a gosod ceblau rhyng-aráe
- Cadw a gosod y cebel allforio.

1.9.2.5 Yn ystod y cam adeiladu, rhagwelir y bydd y rolau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn wedi'u lleoli ar y môr yn bennaf, gyda gweithwyr yn cael eu lletya ar longau. Fodd bynnag, mae gan y gweithwyr hyn y potensial i arwain at alw am lety dros dro ar ddechrau a diwedd cyfnodau shifft nodwediadol ar y môr yn nalgylchoedd y porthladd(oedd) trosglwyddo perthnasol cyn neu ar ôl treulio amser yn eu lleoliad cartref. Bydd rhai rolau, ee cydosod neu reoli, wedi'u lleoli ar y tir, ac mae ganddynt y potensial i arwain at alw pellach am lety dros dro, ac am lety rhent tymor byr o bosib.

1.9.2.6 Mae'r effeithiau posib ar y gweithlu sy'n gysylltiedig â Phrosiect Gwynt Alltraeth Mona fel y nodir yng Nghyfrol 4, Pennod 3: Nodweddion economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.3), wedi cael eu hamcangyfrif ar sail tybiaethau sy'n ymwneud â'r newidynnau canlynol:

- Gweithgarwch mwyaf mewn un ardal astudiaeth economaidd-gymdeithasol ac ardal astudiaeth gymunedol ranbarthol
- Uchafswm niferoedd llonau
- Maint criw llonau
- Trefniadau shifft
- Shifftiau bob flwyddyn
- Nosweithiau o lety sydd eu hangen fesul shifft.

1.9.2.7 Mae'r asesiad o'r effeithiau cymdeithasol fel y nodir yn yr adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol (Cyfrol 8, Atodiad 3.1: Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F8.3.1)), yn mabwysiadu senario effaith galluogrwydd presennol. Mae hyn yn tybio na all un porthladd gyflawni'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â cham adeiladu Prosiect

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

Gwynt Alltraeth Mona. Capasiti a galluoedd porthladdoedd sy'n pennu'r cyfleusterau y gellir eu defnyddio i osod cydrannau unigol.

- 1.9.2.8 Mae'r senario galluogrwydd presennol yn tybio mai'r gweithgarwch mwyaf a allai ddigwydd mewn un ardal astudiaeth gymdeithasol ranbarthol yw trefnu'r cebbau rhyngráe a'r cebol allforio. Bydd rhagor o effeithiau ar y gweithlu yn cael eu creu mewn rhannau eraill o'r DU yn dibynnu ar y dewis o borthladdoedd cymorth ar gyfer gweithgareddau adeiladu eraill.
  - 1.9.2.9 O dan y senario effaith galluogrwydd presennol, tybir bod penderfyniadau caffael a chontractio yn cael eu gwneud yn unol â chystadleurwydd presennol sector gwynt ar y môr y DU. Tybir bod cyflogaeth sy'n gysylltiedig â saernio yn defnyddio gweithluoedd sefydlog mentrau presennol. Ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar y galw am dai, llety a gwasanaethau lleol sy'n uwch na'r gweithgarwch llinell sylfaen presennol.
  - 1.9.2.10 Ni ragwelir y bydd gweithwyr yn cael eu hadleoli yn barhaol (hy dros y tymor hir) yn ystod y cam adeiladu ar y môr ar sail natur symudol rhannau mawr o'r gweithlu ar y môr.
  - 1.9.2.11 Ar sail arferion safonol y diwydiant, tybir y bydd criwiau llongau'n gweithio yn unol â phatrymau shifft pedair wythnos ar shifft/oddi ar shifft. Ar y sail hon, tybir y bydd pob llong adeiladu yn cefnogi 13 shifft y flwyddyn.
  - 1.9.2.12 Tybir y bydd rolau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn wedi'u lleoli ar y môr, gyda gweithwyr yn cael eu lletya ar longau.
  - 1.9.2.13 Tybir y bydd angen uchafswm o ddwy noson o lety dros nos fesul shifft ar bob aelod o'r criw. Mae hyn yn cynnwys un noson cyn ac un noson ar ôl cyfnod shifft. Tybir y bydd aelodau o'r criw yn aros yn eu cartref parhaol yn rhywle arall am weddill eu cyfnod 'oddi ar shifft'.
  - 1.9.2.14 Tybir na fyddai angen llety dros nos lleol ar o leiaf un rhan o dair o weithwyr, ar y sail bod y gweithwyr hyn wedi'u lleoli'n ddigon agos i'r porthladd(oedd) perthnasol yn barhaol, gan gael gwared ar yr angen am lety dros nos.
  - 1.9.2.15 Felly, yn ystod y cam adeiladu ar y môr, nid oes disgwyl unrhyw newid parhaol na dros dro ym mhoblogaeth gogledd Cymru, ac nid oes disgwyl mewnfudo nac allfudo. Felly, nid oes disgwyl unrhyw newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg, nac effaith ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg.
- Cam adeiladu – ar y tir**
- 1.9.2.16 Mae cyfnod adeiladu o dair blynedd (36 mis) wedi cael ei dybio drwy gydol.
  - 1.9.2.17 Gallai gwariant posib ar weithgareddau ar y tir sy'n gysylltiedig â cham adeiladu Prosiect Gwynt Alltraeth Mona gefnogi teithiau dros nos i ardaloedd yr astudiaeth gymdeithasol.
  - 1.9.2.18 Yn unol â'r dull gweithredu yn yr asesiad economaidd-gymdeithasol, er mwyn asesu'r effeithiau cymdeithasol 'gwaethaf' posib, tybir y bydd effeithiau uniongyrchol ar gyflogaeth yn dibynnu'n bennaf ar lafur o'r tu allan i ogledd Cymru. Mae gan y gweithwyr hyn y potensial i arwain at alw am lety dros nos yn ystod 'shifftiau', neu am lety tymor byr (dros dro) yn ystod cyfnodau hirach o weithgarwch.
  - 1.9.2.19 Rhagwelir na fydd adleoliad sylweddol hirdymor (parhaol) o weithwyr i ogledd Cymru.
  - 1.9.2.20 Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol yn disgwyl y bydd y galw mwyaf o 5,000 o arosiadau dros nos (nosweithiau'r flwyddyn) ac 20 o unedau tai tymor byr (dros dro) y flwyddyn (yn seiliedig ar senario wedi'i modelu).

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

1.9.2.21 Nid oes disgwyl i'r galw disgwyliedig (ar sail senario wedi'i modelu) arwain at fewnfudo i ardal astudiaeth gogledd Cymru oherwydd ymwelliadau dros dro fyddai'r rhain ar gyfer llety dros nos. Ni fyddai unrhyw newid parhaol i'r boblogaeth, ac felly ni fyddai unrhyw newid i'r cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg ar draws gogledd Cymru.

1.9.2.22 Felly, yn ystod y cam adeiladu ar y tir, nid oes disgwyl unrhyw newid parhaol na dros dro ym mhoblogaeth gogledd Cymru, ac nid oes disgwyl mewnfudo nac allfudo. Felly, nid oes disgwyl unrhyw newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg, nac effaith ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg.

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu**

1.9.2.23 Niwtral.

### **Effeithiau yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

1.9.2.24 Disgwylir y bydd cyfleusterau porthladdoedd gweithredu a chynnal a chadw posib yn cefnogi'r gweithgareddau canlynol:

- Gweithredu a chynnal a chadw tyrbinau gwynt
- Gweithredu a chynnal a chadw sylfeini
- Gweithredu a chynnal a chadw is-orsaf ar y môr
- Cadw a gosod ceblau rhyng-aráe
- Cadw a gosod y cebel allforio.

1.9.2.25 Tybir y bydd sylfaen weithredol fach wedi'i lleoli yn y porthladd gweithredu a chynnal a chadw a ddewisir, a bydd pencadlys gweithredol rhywle arall yn y DU, gan nad yw'r gweithgarwch hwn yn dibynnu'n ddaearyddol ar ddewis porthladd.

1.9.2.26 Mae Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o greu rolau newydd yn uniongyrchol mewn gweithgareddau gweithredu a chynnal a chadw. Tybir y bydd effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig ar gyflogaeth yn defnyddio'r gweithlu preswyl presennol ym mhob ardal. Oherwydd y disgwylir i'r effeithiau hyn ddigwydd yn yr economi ehangach, disgwylir i gyfraniad yr effeithiau hyn at fudo llafur adlewyrchu patrymau mudo nodweddiadol sy'n gysylltiedig â thwf economaidd. Felly, disgwylir i effeithiau cyflogaeth anuniongyrchol ac ysgogedig gael effaith fach iawn ar y boblogaeth, tai a llety.

1.9.2.27 Byddai modd llenwi rolau uniongyrchol drwy nifer o lwybrau, gan gynnwys:

- Gweithwyr lleol yn symud o'r sector Olew a Nwy ar y môr
- Preswylwyr lleol yn ymuno â'r sector o weithgareddau hyfforddi
- Pobl nad ydynt yn lleol yn cymudo i'r ardal leol dan sylw
- Gweithwyr nad ydynt yn lleol yn adleoli i'r ardal leol dan sylw.

1.9.2.28 Nid oes meincnod sefydledig ar gyfer tybio cyfraniad trigolion lleol at weithlu gweithredu a chynnal a chadw cynllun ynni ar y môr. Gall y ffigur hwn amrywio rhwng prosiectau yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys nodweddion y prosiect, lleoliad, amodau'r farchnad lafur leol, dull y datblygwr, a pholisi'r llywodraeth.

1.9.2.29 Mae tua phedair blynedd o amser paratoi cyn dechrau gweithredu, felly mae amser i hyfforddi rhan sylweddol o'r gweithlu sy'n weddill o'r farchnad lafur leol.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

- 1.9.2.30 Gall cyfran y gweithlu gweithredu a chynnal a chadw sy'n cymudo o'r tu allan i ardal y prosiect ar gyfer eu shifftiau amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar ffactorau amrywiol, gan gynnwys nodweddion y prosiect, lleoliad, hygyrchedd, amodau'r farchnad dai, a dull y datblygwr.
- 1.9.2.31 Yn absenoldeb meinchnod safonol y diwydiant, mae'r asesiad yng Nghyfrol 8, Atodiad 3.1: Adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F8.3.1) yn amcangyfrif y byddai 34 o weithwyr nad ydynt yn lleol yn adleoli i ogledd Cymru, gan gynyddu i 87 wrth ystyried aelodau o'r teulu a fyddai hefyd yn adleoli am gyfnod hir (35 mlynedd) dros gyfnod cyfan y cam gweithredu a chynnal a chadw. Er mwyn ystyried y sefyllfa waethaf bosib, tybir bod yr holl weithwyr a'u teuluoedd yn ddi-Gymraeg.
- 1.9.2.32 Gostyngodd poblogaeth gogledd Cymru tua 6,000 dros y cyfnod 2015–2021 (-0.2% y flwyddyn). Mae'r senario llinell sylfaen yn y dyfodol yn dangos bod disgwyl i boblogaeth gogledd Cymru gynyddu tua 14,000 (+0.2% y flwyddyn) dros y cyfnod 2022–2040.
- 1.9.2.33 Nid ystyrir bod y cynnydd ym mhoblogaeth gogledd Cymru o ganlyniad i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw yn arwain at newid amlwg yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg, gan fod disgwyl i'r gweithwyr a'r aelodau o'u teulu fod wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws gogledd Cymru.
- 1.9.2.34 Tybir bod y 50% sy'n weddill o weithwyr nad ydynt yn lleol yn teithio o'r tu allan i ardal berthnasol yr astudiaeth gymdeithasol ar gyfer eu shifft. Bydd gweithwyr yn y categori hwn naill ai angen llety dros nos am un noson cyn ac ar ôl eu shifft, neu bydd eu taith yn ddigon byr nad oes angen llety dros nos arnynt. Byddai'r gweithwyr hyn yn aros am un noson cyn ac ar ôl eu shifft a byddent yn rhanbarth gogledd Cymru am gyfnod dros dro, ac felly ni fyddai'n arwain at gynydd na gostyngiad yn y boblogaeth.

### **Effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

- 1.9.2.35 Niwtral.

### **Effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu**

- 1.9.2.36 Nid yw'r union ddull o ddatgomisiynu wedi'i gadarnhau eto, gan nad yw'r arferion gorau ar y pryd yn hysbys. Fodd bynnag, ar ddiwedd oes weithredol Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, rhagwelir y bydd yr holl strwythurau uwchben gwely'r môr neu lefel y ddaear yn cael eu tynnu'n llwyr pan fydd hynny'n ymarferol. Fel arfer, bydd y drefn datgomisiynu yn groes i'r drefn adeiladu ac yn cynnwys mathau a niferoedd tebyg o longau ac offer.
- 1.9.2.37 Yng ngoleuni hyn, yn unol â'r asesiad o'r effeithiau ar newidiadau yn y boblogaeth a mewnfudo ac allfudo yn ystod y cam adeiladu, nid oes disgwyl unrhyw newid parhaol na dros dro ym mhoblogaeth gogledd Cymru ac nid oes disgwyl mewnfudo nac allfudo.

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam datgomisiynu**

- 1.9.2.38 Niwtral.

### **Mesurau lliniaru a/neu wella**

- 1.9.2.39 Ar sail yr asesiad, ni chredir bod angen unrhyw fesurau lliniaru.

### C3. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o arwain at newid strwythur oedran yr ardal gymunedol?

- A allai grwpiau oedran penodol adael neu symud i'r ardal? A allai rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol chwali?

1.9.2.40 Anaml iawn y mae newid, cynnydd a gostyngiad yn y boblogaeth yn unffurf ar draws proffil oedran. Mae datblygiadau'n debyg o effeithio ar wahanol grwpiau oedran mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n bosib y bydd datblygiadau mawr yn effeithio ar strwythur poblogaeth mewn ardal benodol. Gall math a graddfa datblygiad olygu bod grŵp oedran penodol yn fwy neu'n llai tebygol o fewnfudo i ardal neu allfudo o ardal. Gall datblygiadau ar raddfa fawr hefyd arwain at densiynau cymdeithasol, er enghraifft, o ganlyniad i drigolion newydd yn symud i'r ardal.

#### **Effeithiau yn ystod y cam adeiladu**

1.9.2.41 Fel y cyflwynwyd yn flaenorol, yn ystod y camau adeiladu ar y môr ac ar y tir, nid oes disgwyl unrhyw newid parhaol na dros dro ym mhoblogaeth gogledd Cymru, ac nid oes disgwyl mewnfudo nac allfudo o ganlyniad i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona. Yng ngoleuni hyn, nid oes disgwyl i grwpiau oedran penodol adael na symud i ardal astudiaeth gogledd Cymru. Yng ngoleuni hyn, ni ddisgwylir unrhyw newidiadau yn strwythur oedran presennol gogledd Cymru.

#### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu**

1.9.2.42 Niwtral.

#### **Effeithiau yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

1.9.2.43 Disgwylir y bydd 87 o weithwyr a'u teuluoedd o'r tu allan i ranbarth gogledd Cymru yn symud i ogled Cymru am gyfnod o 35 mlynedd dros gam gweithredu a chynnal a chadw'r prosiect.

1.9.2.44 Er nad yw oedran y bobl hyn yn hysbys, disgwylir iddynt gynnwys amrediad o oedrannau, gan gynnwys plant.

1.9.2.45 Gan nad oes disgwyl i adleoli'r gweithwyr hyn a'u teuluoedd i ranbarth gogledd Cymru am gyfnod o 35 mlynedd gael effaith amlwg ar boblogaeth gogledd Cymru, ni ddisgwylir unrhyw effaith amlwg ar strwythur oedran poblogaeth gogledd Cymru.

#### **Effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

1.9.2.46 Niwtral.

#### **Effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.2.47 Nid yw'r union ddull o ddatgomisiynu wedi'i gadarnhau eto, gan nad yw'r arferion gorau ar y pryd yn hysbys.

1.9.2.48 Mae'r gweithgareddau ar gyfer datgomisiynu rhannau o Brosiect Gwynt Alltraeth Mona ar y môr yn debygol o gael eu cefnogi mewn ffordd debyg i'r gwaith gosod, gyda'r broses yn cael ei chynnal o chwith (hy gweithgareddau'r cam adeiladu llai datblygu a saernio'r prosiect).

1.9.2.49 Yng ngoleuni hyn, yn unol â'r asesiad o'r effeithiau ar strwythur oedran y boblogaeth, nid oes disgwyl y bydd unrhyw newid parhaol na dros dro yn strwythur oedran gogledd Cymru.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.2.50 Niwtral.

### **Mesurau Iliniaru a/neu wella**

1.9.2.51 Ar sail yr asesiad, ni chredir bod angen unrhyw fesurau Iliniaru.

### **1.9.3 Ansawdd bywyd**

#### **C4. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o gael effaith ar ansawdd bywyd pobl leol?**

- A allai'r cynnig effeithio ar iechyd ac amwynder y gymuned?
- A allai gynyddu'r risg o droseddu neu drais yn y gymuned?

1.9.3.1 Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng iechyd pobl a'r gymuned maen nhw'n byw ynddi. Mae modd cysylltu dirywiad mewn iechyd ag ystod eang o benderfynyddion, gan gynnwys stoc wael o dai, dim digon o le mewn tai, cysylltiadau cludiant gwael a dirywiad mewn amgylchiadau ariannol. Os bydd datblygiad yn arwain at ddirywiad mewn ansawdd bywyd, gall sefydlogrwydd y gymuned fod o dan fygythiad oherwydd gall y rheini sy'n gallu fforddio i symud o ardal wneud hynny. Mewn ardal lle caiff yr iaith Gymraeg ei siarad yn helaeth, gall hyn effeithio ar ganran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

1.9.3.2 Mae'n bosib yr effeithir ar y cydbwysedd rhwng y siaradwyr Cymraeg a'r bobl ddi-Gymraeg os bydd ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn dirywio neu os bydd lefelau presennol yr amwynderau cyffredinol yn dirywio, gan effeithio ar ansawdd bywyd. Gallai teuluoedd sy'n gallu fforddio i wario mwy benderfynu allfudo petai mwynderau'r ardal leol yn dirywio.

### **Effeithiau yn ystod y cam adeiladu**

1.9.3.3 Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol ar iechyd ac ansawdd bywyd trigolion lleol gogledd Cymru (fel y nodir yng Nghyfrol 4, Pennod 4: Asesiad iechyd pobl y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.4), ac felly ni fyddai disgwyl iddo effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant.

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu**

1.9.3.4 Niwtral.

### **Effeithiau yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

1.9.3.5 Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol ar iechyd ac ansawdd bywyd trigolion lleol gogledd Cymru (fel y nodir yng Nghyfrol 4, Pennod 4: Asesiad iechyd pobl y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.4), ac felly ni fyddai disgwyl iddo effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant.

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu**

1.9.3.6 Niwtral.

## **Effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.3.7 Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn arwain at effeithiau niweidiol sylwedol ar iechyd ac ansawdd bywyd trigolion lleol gogledd Cymru (fel y nodir yng Nghyfrol 4, Pennod 4: Asesiad iechyd pobl y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.4), ac felly ni fyddai disgwyl iddo effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant.

## **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.3.8 Niwtral.

## **Mesurau lliniaru a/neu wella**

1.9.3.9 Ar sail yr asesiad, ni chredir bod angen unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol.

## **Ffactorau economaidd**

### **C5. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau a swyddi lleol?**

- A allai arwain at fusnesau lleol Cymraeg yn cau?
- A allai greu neu beryglu swyddi lleol?

1.9.4.1 Mae gan waith datblygu y potensial i effeithio ar y gadwyn gyflenwi ac ar fusnesau lleol sydd wedi hen sefydlu. Byddai prosiect seilwaith mawr yn sicrhau gwariant cyfalaaf cysylltiedig uchel, a fyddai'n fanteisiol i fusnesau lleol. Byddai hyn yn cynnwys gwariant o ganlyniad i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona a gwariant gan weithlu'r prosiect, a'r galw uwch am nwyddau a gwasanaethau. Mae gan brosiectau seilwaith mawr y potensial i arwain at ddadleoli llafur o'r economi leol, a fyddai'n mynd yn groes i fuddiannau busnesau lleol.

1.9.4.2 Gall datblygiad newydd ddyylanwadu ar nifer, math ac ansawdd y swyddi sydd ar gael yn lleol, gan ddibynnu ar y sgiliau sydd gan bobl leol. Mae'r asesiad yn ystyried y ddeinameg rhwng galw Prosiect Gwynt Alltraeth Mona am lafur a chyflenwad a chapasiti'r gweithlu lleol.

1.9.4.3 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y berthynas rhwng meithrin twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a lles y Gymraeg. Felly, mae gan Brosiect Gwynt Alltraeth Mona y potensial i gyfrannu at y berthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg.

## **Effeithiau yn ystod y cam adeiladu**

1.9.4.4 Yn ystod y cam adeiladu (ar y môr ac ar y tir), mae Cyfrol 4, Pennod 3: Nodweddion economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.3) yn disgwyl y byddai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn arwain at gyfanswm o £46 miliwn GVA (o ganlyniad i wariant) yn rhanbarth gogledd Cymru (amcangyfrif sy'n seiliedig ar senario wedi'i modelu), gan gynnig 350 o flynyddoedd o gyflogaeth cyfwerth ag amser llawn. Tybir bod traean o weithwyr adeiladu wedi eu lleoli'n ddigon agos i'r porthladdoedd i ddileu'r angen am lety dros nos pan fyddant ar eu sifftiau. At ddibenion yr asesiad hwn, tybir bod y gweithwyr hyn yn dod o ranbarth gogledd Cymru. Byddai hyn yn cynrychioli tua 116 o flynyddoedd o gyflogaeth cyfwerth ag amser llawn.

1.9.4.5 Byddai cynnig cyfleoedd cyflogaeth yn lleol yng ngogledd Cymru yn cael effaith fanteisiol o ran lles y Gymraeg a'i diwylliant, yn enwedig ar Ynys Môn, oherwydd

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

- byddai'r cyfleoedd am swyddi yn helpu i gadw'r boblogaeth bresennol, gan gynnwys cyfran o siaradwyr Cymraeg.
- 1.9.4.6 Mae'r bennod economaidd-gymdeithasol (Cyfrol 4, Atodiad 3: Nodweddion economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.3)) yn nodi bod pobl gyflogedig yn y diwydiannau effaith adeiladu wedi gostwng tua 1,000 yng ngogledd Cymru rhwng 2015 a 2021 (-1.9% y flwyddyn). Mae hyn yn awgrymu bod potensial ar draws holl ardaloedd yr astudiaeth economaidd i ddarparu ar gyfer cynnydd mewn gweithgareddau datblygu ac adeiladu yn y sector gwynt ar y môr. Er hynny, mae'n debygol y byddai hyn yn gofyn am rywfaint o 'uwchsgilio' a phontio ar gyfer cwmnïau a gweithwyr.
- 1.9.4.7 Mae'r amodau llinell sylfaen ar gyfer y dyfodol a nodir yng Nghyfrol 4, Pennod 3: Nodweddion economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Ddogfen F4.3) yn dangos ei bod yn debygol y bydd capaciti posib yn y sectorau cyfleustodau a gweithgynhyrchu oherwydd sylfaen gyflogaeth ostyngol hyd at 2035. Mae hyn eto'n dangos bod potensial i ddarparu ar gyfer cynnydd mewn gweithgareddau tebyg yn y sector gwynt ar y môr. Rhagwelir y bydd cyflogaeth yn y sector adeiladu yn cynyddu dros y cyfnod hyd at 2035. Mae hyn yn awgrymu bod y sector mewn sefyllfa gref o ran twf, er y gallai arwain at amodau tynnach i'r farchnad lafur mewn gweithgareddau adeiladu.
- 1.9.4.8 Roedd 31.2% o boblogaeth oedran gweithio gogledd Cymru sy'n gweithio yn y sector adeiladu yn siaradwyr Cymraeg yn 2021 (Nomis, 2021). Felly, disgwyli'r i gyfran (anhysbys) o'r gweithwyr adeiladu y tybir eu bod yn lleol i ogled Cymru fod yn siaradwyr Cymraeg. Bydd y gweithwyr hyn eisoes yn gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd cyfleoedd cyflogaeth a gynigir yn ystod y cam adeiladu yn galluogi pobl leol i barhau i fyw a gweithio yng ngogledd Cymru.
- 1.9.4.9 O ran yr effeithiau posib ar fusnesau lleol yn ystod y cyfnod adeiladu, mae Cyfrol 4, Pennod 3: Nodweddion economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.3) yn nodi'r angen posib am lety dros nos i rai gweithwyr. Bydd amrywiaeth o rolau gosod a chomisiynu yn cael eu llenwi gan weithwyr symudol, fel sy'n nodwediadol o bob prosiect gwynt ar y môr. Bydd y rolau hyn ar y môr i raddau helaeth, gyda gweithwyr yn cael eu lletya ar Longau Gweithredu Gwasanaethau. Tybir y bydd gweithwyr ar y môr yn cael eu rhoi ar waith o un porthladd trosglwyddo. Mae gan y gweithwyr hyn y potensial i arwain at alw am lety dros nos ar ddechrau a diwedd cyfnodau shifft arferol o bedair wythnos ar y môr.
- 1.9.4.10 Mae'r bennod economaidd-gymdeithasol (Cyfrol 4, Atodiad 3: Nodweddion economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.3)) yn nodi'r galw posib am uchafswm o 35,800 o lety dros dro dros nos sy'n deillio o Brosiect Gwynt Alltraeth Mona. Gallai hyn gael effaith fanteisiol ar fusnesau llety twristiaeth lleol ledled gogledd Cymru.
- 1.9.4.11 Mae capaciti gormodol yn y sector llety dros nos yn seiliedig ar ddata deiliadaeth y cyfartaledd blynnyddol a'r mis prysuraf. Mae potensial i waith ar y môr fod yn dymhorol, gyda rhai gweithgareddau'n cael eu crynhoi yn ystod adegau o'r flwyddyn pan fo'r tywydd yn well. Mae hyn yn debygol o gyd-fynd ag adegau o'r flwyddyn lle mae cyfraddau deiliadaeth uwch mewn llety dros nos.
- 1.9.4.12 Mae'r bennod economaidd-gymdeithasol (Cyfrol 4, Atodiad 3: Nodweddion economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol Cyfeirnod F4.3) yn nodi effaith fanteisiol fechan ar y sector llety. Gallai'r cynnydd mewn arosiadau llety dros nos gael effaith fanteisiol ar fusnesau lleol yn y sector llety dros nos ledled gogledd Cymru yn ystod y cam adeiladu.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

- 1.9.4.13 Yn gyffredinol, bydd y cynnig yn cael effaith fanteisiol ar yr economi leol gan gynnwys busnesau a swyddi lleol, a fydd yn ei dro yn cefnogi cymuned lle gall y Gymraeg ffynnu.
- Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu**
- 1.9.4.14 Buddiol.
- Effeithiau yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**
- 1.9.4.15 Yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw (ar y môr ac ar y tir), mae Cyfrol 4, Pennod 3: Nodweddion economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.3) yn disgwyl y byddai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn arwain at gyfanswm GVA o £26.3 miliwn (o ganlyniad i wariant) yn rhanbarth gogledd Cymru, gan gynnig 210 o flynyddoedd o gyflogaeth FTE (amcangyfrifon sy'n seiliedig ar senario wedi'i modelu).
- 1.9.4.16 Mae sicrhau economi ffyniannus sydd â swyddi tymor hir o ansawdd uchel ar gyfer pobl leol yn bwysig i gynnal a chryfhau cymunedau. Heb gyfleoedd economaidd, gan gynnwys swyddi o ansawdd uchel, ni fyddai poblogaethau oedran gweithio, yn enwedig pobl ifanc, yn gallu aros yn yr ardal.
- 1.9.4.17 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y berthynas rhwng meithrin twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a lles y Gymraeg.
- 1.9.4.18 Un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw cyflawni "Cymru sydd â diwylliant bywiog gyda'r Gymraeg yn ffynnu". Caiff ei gydnabod bod sylfaen economaidd gadarn yn un o'r ystod eang o ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant y Gymraeg yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r arallgyfeirio economaidd sy'n cael ei gynnig yn ystod y cam adeiladu yn cynnig cyfleoedd i feithrin twf yn y defnydd o'r Gymraeg, ynghyd â thwf economaidd.
- 1.9.4.19 Mae Cyfrol 4, Pennod 3: Nodweddion economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.3)) yn nodi bod pobl gyflogedig yn y diwydiannau effaith adeiladu wedi gostwng tua 1,000 yng ngogledd Cymru rhwng 2015 a 2021 (-1.9% y flwyddyn). Mae hyn yn awgrymu bod potensial ar draws holl ardaloedd yr astudiaeth economaidd i ddarparu ar gyfer cynnydd mewn gweithgareddau datblygu ac adeiladu yn y sector gwynt ar y môr – er y byddai hyn yn debygol o olygu rhywfaint o 'uwchsgilio' a phontio ar gyfer cwmnïau a gweithwyr.
- 1.9.4.20 Mae'r amodau llinell sylfaen ar gyfer y dyfodol a nodir yng Nghyfrol 4, Pennod 3: Nodweddion economaidd-gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Ddogfen F4.3) yn dangos ei bod yn debygol y bydd capaciti posib yn y sectorau cyfleustodau a gweithgynhyrchu oherwydd sylfaen gyflogaeth ostyngol hyd at 2035. Mae hyn eto'n dangos bod potensial i ddarparu ar gyfer cynnydd mewn gweithgareddau tebyg yn y sector gwynt ar y môr. Rhagwelir y bydd cyflogaeth yn y sector adeiladu yn cynyddu dros y cyfnod hyd at 2035. Mae hyn yn awgrymu bod y sector mewn sefyllfa gref o ran twf, er y gallai arwain at amodau tynnach i'r farchnad lafur mewn gweithgareddau adeiladu.
- 1.9.4.21 Mae tua phedair blynedd o amser paratoi cyn dechrau gweithredu, felly mae amser i hyfforddi rhan sylweddol o'r gweithlu sy'n weddill o farchnad lafur leol gogledd Cymru, a fyddai'n darparu cyfleoedd cyflogaeth hirdymor i bobl leol, gan gynnwys cyfran o siaradwyr Cymraeg, ac yn annog pobl newydd i ymuno â'r sector.
- 1.9.4.22 Yn gyffredinol, ystyri'r bod y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw yn fanteisiol o ran y Gymraeg a'i diwylliant, drwy gadw gweithlu

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

Ileol presennol gogledd Cymru, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg a darparu cyfleoedd i annog pobl newydd i ymuno â'r sector, a darparu swyddi hirdymor o ansawdd uchel.

### **Effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

1.9.4.23 Buddiol.

#### **Effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.4.24 Nid yw'r union ddull o ddatgomisiynu wedi'i gadarnhau eto, gan nad yw'r arferion gorau ar y pryd yn hysbys.

1.9.4.25 Mae'r gweithgareddau ar gyfer datgomisiynu rhannau o Brosiect Gwynt Alltraeth Mona ar y môr yn debygol o gael eu cefnogi mewn ffordd debyg i'r gwaith gosod, gyda'r broses yn cael ei chynnal o chwith (hy gweithgareddau'r cam adeiladu llai datblygu a saernio'r prosiect).

1.9.4.26 Yng ngoleuni hyn, yn unol â'r asesiad o'r effeithiau ar fusnesau a swyddi lleol yn ystod y cam adeiladu, disgwylir y bydd effaith fanteisiol ar fusnesau a swyddi lleol yn ystod y cam datgomisiynu.

#### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.4.27 Buddiol.

#### **Mesurau lliniaru a/neu wella**

1.9.4.28 Er mwyn gwella cyfleoedd cyflogaeth lleol ar gyfer y gweithlu lleol, gan gynnwys ar draws gogledd Cymru, bydd Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth manwl yn cael ei baratoi ar ôl cael caniatâd, yn unol â gofyniad y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (Cyfeirnod Dogfen C3). Bydd sylwedd y Cynllun manwl yn gyson â'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Amlinellol a gyflwynwyd fel rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (Cyfeirnod Dogfen J24) sy'n nodi cynllun gweithredu i gynyddu nifer y bobl leol sy'n ymuno â'r sector.

### **C6. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd yn y gymuned (neu'r ardal ehangach)?**

- A allai arwain at ragor o bobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo oherwydd rhagor o arallgyfeirio economaidd?

1.9.4.29 Gall y Datblygiad greu cyfleoedd cyflogaeth sy'n gofyn am sgiliau penodol. Bydd rhai datblygiadau yn gofyn am ddefnydd uwch o'r iaith fel sgil y farchnad lafur. Bydd rhai eraill yn gofyn am sgiliau nad ydynt ar gael yn y farchnad lafur leol, gan arwain at weithwyr sydd â'r sgiliau penodol hyn yn mewnfudo i'r ardal.

1.9.4.30 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu'r amgylchedd gorau posib i gefnogi twf yr iaith Gymraeg a datblygiad economaidd, a fydd o fudd i'r naill a'r llall. Maen nhw'n cydnabod y berthynas rhwng meithrin twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth, a lles y Gymraeg.

1.9.4.31 Un o'r themâu a bwysleisiwyd yn ystod y Gynhadledd Fawr oedd bod angen cynyddu gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle, cryfhau economiau ardaloedd Cymraeg traddodiadol gogledd a gorllewin Cymru, cynyddu gwerth economaidd yr iaith, a chefnogi siaradwyr Cymraeg i aros yn yr ardaloedd hynny.

1.9.4.32 Mae poblogaethau oedran gweithio, yn arbennig pobl ifanc, yn cael eu denu at leoliadau daearyddol lle mae datblygiad economaidd ar ei gryfaf ac mae economi

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

ffyniannus yno. Fodd bynnag, byddai lleoliadau sydd ag economi ffyniannus hefyd yn denu unigolion di-Gymraeg. Gall y broses o boblogaethau di-Gymraeg yn mewnfudo i ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymuned effeithio ar ganran y siaradwyr Cymraeg a defnydd cyffredinol o'r iaith.

### Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

- 1.9.4.33 Bydd cynnydd mewn cyfleoedd i gael gwaith, fel y rhagwelir erbyn y cam adeiladu, yn naturiol yn denu ystod eang o weithwyr a byddai'r gweithlu lleol yn wynebu cystadleuaeth gan weithwyr eraill o'r tu allan i'r ardal.
- 1.9.4.34 Byddai'r cyfnod adeiladu'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth. Tybir bod traean o weithwyr adeiladu wedi eu lleoli'n ddigon agos i'r porthladdoedd i ddileu'r angen am lety dros nos pan fyddant ar eu sifftiau. At ddibenion yr asesiad hwn, tybir bod y gweithwyr hyn yn dod o ranbarth gogledd Cymru. Byddai hyn yn cynrychioli tua 116 o flynyddoedd o gyflogaeth cyfwerth ag amser llawn. Nid oes disgwyl i'r cyfleoedd gwaith a gynigir yn ystod cam adeiladu Prosiect Gwynt Alltraeth Mona gynnig swyddi newydd nad ydynt yn cael eu cynnig ar hyn o bryd yn ardal gogledd Cymru, a byddant yn cynnwys gwaith adeiladu cyffredinol. Yng ngoleuni hyn, nid oes disgwyl i'r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir arwain at ragor o amrywiaeth economaidd ar draws rhanbarth gogledd Cymru.

### Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

- 1.9.4.35 Niwtral.

### Effeithiau yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw

- 1.9.4.36 Mae'r cyfleoedd cyflogaeth economaidd hirdymor a gynigir fel rhan o Brosiect Gwynt Alltraeth Mona yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw hefyd yn cynnig cyfleoedd ledled gogledd Cymru.
- 1.9.4.37 Oherwydd y math o gyflogaeth a gynigir yn ystod y cam gweithredu byddai hyn yn darparu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith ar draws gogledd Cymru, gan arwain at arallgyfeirio economaidd. Byddai hyn yn cael effaith fanteisiol ar y Gymraeg a'i diwylliant ar draws gogledd Cymru oherwydd byddai mwy o amrywiaeth economaidd, yn enwedig ar gyfer gweithlu lleol, yn cyfrannu at gynnal a chryfhau hyfwedd cymunedol. Maes o law byddai hyn yn cefnogi ac yn cryfhau'r Gymraeg.
- 1.9.4.38 Byddai mwy o amrywiaeth economaidd hefyd yn cael effaith fanteisiol o ran cadw poblogaeth leol gogledd Cymru. Ac ystyried bod gogledd Cymru wedi gweld pobl ifanc rhwng 15 a 29 oed yn symud allan o'r ardal yn gyson rhwng 2001 a 2020, byddai hyn yn effaith fanteisiol o ran cadw'r boblogaeth Gymraeg.

- 1.9.4.39 Nod y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Amlinellol (Cyfeirnod Dogfen J24) yw gwella cyfleoedd cyflogaeth lleol ar gyfer y gweithlu lleol ledled gogledd Cymru. Mae uwchsgilio'r gweithlu lleol yn golygu llai o ddibyniaeth ar lafur o'r tu allan i ranbarth gogledd Cymru.

### Effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw

- 1.9.4.40 Buddiol.

### Effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu

- 1.9.4.41 Nid yw'r union ddull o ddatgomisiynu wedi'i gadarnhau eto, gan nad yw'r arferion gorau ar y pryd yn hysbys.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

1.9.4.42 Mae'r gweithgareddau ar gyfer datgomisiynu rhannau o Brosiect Gwynt Alltraeth Mona ar y môr yn debygol o gael eu cefnogi mewn ffordd debyg i'r gwaith gosod, gyda'r broses yn cael ei chynnal o chwth (hy gweithgareddau'r cam adeiladu llai datblygu a saernio'r prosiect).

1.9.4.43 Yng ngoleuni hyn, yn unol â'r asesiad o'r effeithiau ar amrywiaeth economaidd yn ystod y cam adeiladu, disgwylir y bydd effaith niwtral ar amrywiaeth economaidd yn ystod y cam datgomisiynu.

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.4.44 Niwtral.

### **Mesurau lliniaru a/neu wella**

1.9.4.45 Er mwyn gwella'r effeithiau manteisiol o ran amrywiaeth economaidd, mae Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Amlinellol wedi cael ei baratoi fel rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (Cyfeirnod Dogfen J24). Ei nod yw gwella cyfleoedd cyflogaeth lleol ar gyfer gweithlu lleol ledled gogledd Cymru.

### **C7. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o gael effaith ar lefelau cyflog lleol a/neu brisiau tai?**

- A allai'r cynnig gynyddu/lleihau lefelau cyflog o ganlyniad i ragor o gystadleuaeth?
- A allai orfodi pobl leol sy'n siarad Cymraeg i adael y gymuned oherwydd prisiau tai, neu eu hatal rhag dychwelyd?

1.9.4.46 Mae prosiectau seilwaith mawr yn gallu effeithio ar lefelau cyflog lleol, gan ddibynnu ar ystod y cyfleoedd gwaith a gynigir a lefel y sgiliau sydd eu hangen. Byddai pobl a grwpiau gwahanol yn ystyried effeithiau datblygiadau ar lefelau cyflog lleol mewn ffyrdd gwahanol.

1.9.4.47 Mae sicrhau cymysgedd o stoc tai o ansawdd uchel i ddiwallu amrywiaeth o anghenion gwahanol yn bwysig ar gyfer cynnal cymunedau cymysg a bywiog. Mae amrywiadau yn y galw am dai yn debygol o arwain at naill ai cynnydd neu ostyngiad mewn prisiau tai. Mae hyn yn debygol o effeithio'n anghyfartal ar wahanol adrannau o'r gymuned. Gallai cynnydd yn y galw am dai o ganlyniad i brosiect seilwaith arwain at gynydd mewn prisiau tai lleol. Gallai hyn arwain at rai grwpiau o'r boblogaeth yn methu fforddio pris y farchnad. Gallai arwain hefyd at fewnfudo ac allfudo a allai, yn eu tro, gael effaith ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn y gymuned.

### **Effeithiau yn ystod y cam adeiladu**

1.9.4.48 Mae'r asesiad a gyflwynir yng Nghyfrol 4, Pennod 3: Nid yw economeg gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.3) yn asesu effeithiau posibl ar gyflogau/tâl lleol. Rhagwelir na fyddai effeithiau cyflogaeth a aseswyd a chyfleoedd a gynigir fel rhan o'r cam adeiladu yn arwain at effaith ar gyflogau/tâl lleol ar draws gogledd Cymru.

1.9.4.49 Nid oes disgwyl i'r cam adeiladu arwain at newidiadau i brisiau tai gan y byddai gweithwyr adeiladu nad ydynt yn lleol yn cael llety mewn llongau ar gyfer rolau ar y môr yn bennaf.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

1.9.4.50 Bydd rhai rolau, ee cydosod neu reoli, wedi'u lleoli ar y tir, ac mae ganddynt y potensial i arwain at alw pellach am lety dros dro, ac am lety rhent tymor byr o bosib, ond nid oes disgwyli hyn fod yn sylweddol.

1.9.4.51 Gan fod y galw am lety o'r fath yn debygol o fod ar wasgar ar draws gogledd Cymru, rhagwelir effaith niwtral yn gyffredinol ar brisiau tai.

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu**

1.9.4.52 Niwtral.

### **Effeithiau yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

1.9.4.53 Mae'r asesiad a gyflwynir yng Nghyfrol 4, Pennod 3: Nid yw economeg gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.3) yn asesu effeithiau posibl ar gyflogau/tâl lleol. Rhagwelir na fyddai effeithiau cyflogaeth a aseswyd a chyfleoedd a gynigir fel rhan o'r cam gweithrediadau a chynnal a chadw yn arwain at effaith ar gyflogau/tâl lleol ar draws gogledd Cymru.

1.9.4.54 Disgwylir y byddai 34 o weithwyr nad ydynt yn lleol yn symud i ranbarth gogledd Cymru yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw, ynghyd â'u teuluoedd (ar sail senario wedi'i modelu). Fodd bynnag, disgwyli'r iddynt fod ar wasgar yn ddaear ymddygiad ar draws gogledd Cymru. Yng ngoleuni hyn, nid oes disgwyli i'r cyfleoedd cyflogaeth y disgwyli'r iddynt yn lleol eu cymryd arwain at effaith amlwg ar brisiau tai ar draws gogledd Cymru.

### **Effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

1.9.4.55 Niwtral.

### **Effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.4.56 Nid yw'r union ddull o ddatgomisiynu wedi'i gadarnhau eto, gan nad yw'r arferion gorau ar y pryd yn hysbys. Fodd bynnag, ar ddiwedd oes weithredol Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, rhagwelir y bydd yr holl strwythurau uwchben gwely'r môr neu lefel y ddaear yn cael eu tynnu'n llwyr pan fydd hynny'n ymarferol. Fel arfer, bydd y drefn datgomisiynu yn groes i'r drefn adeiladu ac yn cynnwys mathau a niferoedd tebyg o longau ac offer.

1.9.4.57 Mae'r asesiad a gyflwynir yng Nghyfrol 4, Pennod 3: Nid yw economeg gymdeithasol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.3) yn asesu effeithiau posibl ar gyflogau/tâl lleol. Rhagwelir na fyddai effeithiau cyflogaeth a aseswyd a chyfleoedd a gynigir fel rhan o'r cam adeiladu yn arwain at effaith ar gyflogau/tâl lleol ar draws gogledd Cymru.

1.9.4.58 Nid oes disgwyli i'r cam adeiladu arwain at newidiadau i brisiau tai gan y byddai gweithwyr adeiladu nad ydynt yn lleol yn cael llety mewn llongau ar gyfer rolau ar y môr yn bennaf. Disgwylir i'r un peth ddigwydd yn ystod y cam datgomisiynu.

1.9.4.59 Yng ngoleuni hyn, yn unol â'r asesiad o'r effeithiau ar lefelau cyflog a phrisiau tai lleol yn ystod y cam adeiladu, disgwyli'r iddynt fod ar y brisiau tai lleol yn ystod y cam datgomisiynu.

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.4.60 Niwtral.

### **Mesurau Iliniaru a/neu wella**

1.9.4.61 Ar sail yr asesiad, ni chredir bod angen unrhyw fesurau Iliniaru.

## 1.9.5 Cyflenwad seilwaith

### C8. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau a seilwaith lleol?

- A allai'r cynnig beryglu neu sicrhau ysgolion a/neu gyfleusterau gofal iechyd cyfrwng Cymraeg lleol?
- A allai beryglu neu ddiogelu siopau lleol/swyddfeydd post/banciau/tafarndai mewn cymunedau Cymraeg, gan orfodi carfannau penodol o'r boblogaeth i adael yr ardal?

- 1.9.5.1 Gallai'r datblygiad ddylanwadu ar nifer y plant fydd yn mynchu ysgolion lleol a sefydliadau a chyfleusterau addysgol gan gynnwys canolfannau trochi iaith. Gallai ysgolion elwa ar y cynnydd mewn poblogaethau iau. Gallai diffyg datblygiad ac, yn ei dro, diffyg newid ym mhroffil oedran presennol cymunedau fygwth cynaliadwyedd ysgolion yn y dyfodol. Fodd bynnag, gallai datblygiad newydd hefyd gynyddu'r pwysau ar leoedd ysgol pe na bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio'n ddigonol neu na fyddai lleoedd gwag ar gael. Byddai cynnydd yn nifer y plant di-Gymraeg oedran ysgol mewn ardaloedd lle mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn gallu cynyddu'r pwysau ar ganolfannau trochi iaith hefyd.
- 1.9.5.2 Mae argaeedd ac ansawdd darpariaeth gofal iechyd yn ystyriaeth bwysig i bobl wrth benderfynu aros mewn ardal neu symud i ardal arall am y tro cyntaf. Mae hyn yn wir am bobl hŷn yn enwedig. Gallai cadw neu sefydlu cyfleusterau gofal iechyd mewn cymuned effeithio ar hyfywedd iaith, yn enwedig pan fo cyfleusterau gofal iechyd wedi dod yn fannau ymgynnll cymdeithasol, sy'n cefnogi rhwydweithiau Cymraeg.
- 1.9.5.3 Mae'r gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol sydd ar gael a'r dewis ohonynt, yn dylanwadu ar ba mor hyfw a chynaliadwy yw cymuned. Mae cadw poblogaethau presennol yn y gymuned, neu ddenu pobl sydd â chysylltiadau lleol i ddychwelyd i'r ardal hyd yn oed, yn helpu. Mae cyfleusterau lleol yn aml yn fannau cwrdd neu'n fannau ymgynnll cymdeithasol, sy'n hybu rhyngweithio yn y gymuned ac mewn rhwydweithiau Cymraeg ei hiaith.
- 1.9.5.4 Gallai mewnfudo i'r ardal o ganlyniad i brosiect seilwaith mawr arwain at gynydd yn y galw am wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gwasanaethau brys (yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans) a chyfleusterau hamdden.
- 1.9.5.5 Mae Polisi DP/5 Cynllun Datblygu Lleol Conwy yn datgan, lle bo'n briodol, y bydd disgwyl i bob datblygiad newydd gyfrannu'n ddigonol at seilwaith newydd i fodloni'r gofynion seilwaith cymdeithasol, economaidd, ffisegol a/neu amgylcheddol ychwanegol sy'n deillio o ddatblygu neu gynnal a chadw cyfleusterau yn y dyfodol.
- 1.9.5.6 Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod gan addysg ran hollbwysig i'w chwarae yn cefnogi dyheadau gwlad ddwyieithog (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr) ac yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau. Felly, ystyrir bod diogelu'r defnydd o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol a sicrhau bod digon o gapasiti mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn bwysig iawn i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau.

### **Effeithiau yn ystod y cam adeiladu**

- 1.9.5.7 Fel y nodwyd yn flaenorol, rhagwelir na fydd unrhyw adleoli sylweddol o weithwyr dros y tymor hir (parhaol) na'r tymor byr (dros dro) i unrhyw un o ardaloedd yr astudiaeth gymdeithasol yn ystod y cam adeiladu (ar y môr ac ar y tir).

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

1.9.5.8 Felly, rhagwelir y bydd yr effeithiau posib ar y boblogaeth – ac unrhyw effeithiau posib cysylltiedig ar wasanaethau lleol fel gofal iechyd ac addysg – yn niwtral yn unol â'r adroddiad effaith dechnegol economaidd-gymdeithasol a'r bennod ar lechyd Pobl (Cyfrol 4, Pennod 4: lechyd Pobl y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Ddogfen F4.4)).

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu**

1.9.5.9 Niwtral.

### **Effeithiau yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

1.9.5.10 Disgwylir y bydd 87 o weithwyr a'u teuluoedd o'r tu allan i ranbarth gogledd Cymru yn symud i ogledd Cymru am gyfnodau hir dros gam gweithredu a chynnal a chadw'r prosiect (35 mlynedd).

1.9.5.11 Nid oes disgwyli i adleoli'r gweithwyr hyn a'u teuluoedd i ranbarth gogledd Cymru am gyfnod hir (35 mlynedd) gael effaith amlwg ar boblogaeth gogledd Cymru oherwydd y byddant ar wasgar yn ddaearyddol. Yng ngoleuni hyn, nid oes disgwyli unrhyw effaith amlwg ar ddarpariaeth gwasanaethau a seilwaith lleol, gan gynnwys capasiti ysgolion lleol a chyfleusterau gofal iechyd.

1.9.5.12 Tybiwyd y byddai'r holl weithwyr a'u teuluoedd a fyddai'n adleoli yn ddi-Gymraeg, ond nid yw'n hysbys faint o'r 87 o unigolion y disgwyli iddynt fod yn blant oedran ysgol. Nid yw'n hysbys chwaith i ble yng ngogledd Cymru y byddai'r unigolion hyn yn adleoli. Os bydd gweithwyr a'u teuluoedd yn symud i ardal lle darperir addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, mae potensial i blant di-Gymraeg newid y cydbwysedd rhwng plant Cymraeg a phlant di-Gymraeg mewn ysgolion presennol.

1.9.5.13 O ran hybu'r Gymraeg, mae cynlluniau dan arweiniad yr Awdurdod ar waith ledled gogledd Cymru i sicrhau bod unrhyw ddisgyblion di-Gymraeg sy'n symud i ranbarth gogledd Cymru o ganlyniad i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona yn cael cyfreithiol i ddysgu'r iaith o oedran ifanc iawn.

### **Effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

1.9.5.14 Niwtral.

### **Effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.5.15 Mae'r dull sy'n cael ei ffafrio ar gyfer gweithgareddau datgomisiynu yn ansicr ar hyn o bryd. Nid yw'r union ddull o ddatgomisiynu wedi'i gadarnhau eto, gan nad yw'r arferion gorau ar y pryd yn hysbys. Fodd bynnag, ar ddiweddfawyd oes weithredol Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, rhagwelir y bydd yr holl strwythurau uwchben gwely'r môr neu lefel y ddaear yn cael eu tynnu'n llwyr pan fydd hynny'n ymarferol. Fel arfer, bydd y drefn datgomisiynu yn groes i'r drefn adeiladu ac yn cynnwys mathau a niferoedd tebyg o longau ac offer.

1.9.5.16 Rhagwelir na fydd unrhyw adleoli sylweddol o weithwyr dros y tymor hir (parhaol) na'r tymor byr (dros dro) i unrhyw un o ardaloedd yr astudiaeth gymdeithasol yn ystod y cam adeiladu (ar y môr ac ar y tir). Disgwylir i'r un peth ddigwydd yn ystod y cam datgomisiynu.

1.9.5.17 Felly, disgwyli'r bydd yr effeithiau posib ar y boblogaeth – ac unrhyw effeithiau posib cysylltiedig ar wasanaethau lleol fel gofal iechyd ac addysg – yn niwtral yn ystod y cam datgomisiynu.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

1.9.5.18 Yng ngoleuni hyn, yn unol â'r asesiad o'r effeithiau ar ddarpariaeth gwasanaethau a seilwaith lleol yn ystod y cam adeiladu, disgwylir y bydd effaith niwtral ar ddarpariaeth gwasanaethau a seilwaith lleol yn ystod y cam datgomisiyu.

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam datgomisiyu**

1.9.5.19 Niwtral.

### **Mesurau Iliniaru a/neu wella**

1.9.5.20 Nodir effaith niwtral ac felly ni chredir bod angen unrhyw fesurau Iliniaru.

## **1.9.6 Agweddu cymdeithasol a diwylliannol**

### **C9. A oes gan Brosiect Gwynt Alltraeth Mona botensial i arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol yn y gymuned (Gymraeg)?**

- A allai'r cynnig gael effaith anwastad sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned leol?
- A allai fynd yn groes i werthoedd traddodiadol mewn rhai rhannau o'r gymuned?

1.9.6.1 Gall datblygiad effeithio er gwaeth ar gymuned gan arwain at densiwn neu wrthdaro cymdeithasol. Gall gwrthdaro o'r fath wneud i bobl feddwl nad yw ystyriaethau diwylliannol yn cael sylw, ac fe all hyn yn ei dro lethu ysbryd cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'n bosib y gallai rhai datblygiadau arwain at deimlad o ddiicter lleol, a allai gyfrannu ymhellach at densiwn cymdeithasol. Gallai diddordebau diwylliannol gwahanol rhwng grwpiau ieithyddol hefyd arwain at greu carfanau ieithyddol gan effeithio'n niweidiol ar gymhathiad cymdeithasol.

### **Effeithiau yn ystod y cam adeiladu**

1.9.6.2 Fel y cyflwynwyd yn flaenorol, yn ystod y camau adeiladu ar y môr ac ar y tir, nid oes disgwyl unrhyw newid parhaol na dros dro ym mhoblogaeth gogledd Cymru, ac nid oes disgwyl mewnfudo nac allfudo o ganlyniad i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona. Yng ngoleuni hyn, nid oes tystiolaeth i awgrymu y gallai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol yn y cymunedau presennol ledled gogledd Cymru.

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu**

1.9.6.3 Niwtral.

### **Effeithiau yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

1.9.6.4 Disgwylir i gyfran uchel o'r gweithlu gweithredu a chynnal a chadw fod yn lleol o ardal gogledd Cymru ac eisoes yn byw yn yr ardal. Ac ystyried natur leol y gweithwyr hyn, nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cam gweithredu yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau yn y cymunedau presennol ledled gogledd Cymru.

1.9.6.5 Disgwylir y bydd 87 o weithwyr a'u teuluoedd o'r tu allan i ranbarth gogledd Cymru yn symud i ogledd Cymru am gyfnod o 35 mlynedd dros gam gweithredu a chynnal a chadw'r prosiect.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

1.9.6.6 Fodd bynnag, mae'r rhain yn cynrychioli cyfran fach o gyfanswm gweithwyr y cam gweithredu (34, gan gynyddu i 87 wrth ystyried y teuluoedd a fyddai'n adleoli) ac ni ystyrir y byddai adleoliad y gweithwyr hyn a'u teuluoedd yn cyfrannu at densiynau cymdeithasol neu raniadau yn y cymunedau ar draws gogledd Cymru.

### **Effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

1.9.6.7 Niwtral.

### **Effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.6.8 Nid yw'r union ddull o ddatgomisiynu wedi'i gadarnhau eto, gan nad yw'r arferion gorau ar y pryd yn hysbys. Fodd bynnag, ar ddiwedd oes weithredol Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, rhagwelir y bydd yr holl strwythurau uwchben gwely'r môr neu lefel y ddaear yn cael eu tynnu'n llwyr pan fydd hynny'n ymarferol. Fel arfer, bydd y drefn datgomisiynu yn groes i'r drefn adeiladu ac yn cynnwys mathau a niferoedd tebyg o longau ac offer.

1.9.6.9 Yn ystod y camau adeiladu ar y môr ac ar y tir, nid oes disgwyl unrhyw newid parhaol na dros dro ym mhoblogaeth gogledd Cymru, ac nid oes disgwyl mewnfudo nac allfudo o ganlyniad i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona. Yng ngoleuni hyn, nid oes tystiolaeth i awgrymu y gallai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona arwain at densiynau cymdeithasol, gwrrhdaro neu raniadau difrifol yn y cymunedau presennol ledled gogledd Cymru. Disgwylir i'r un peth ddigwydd yn ystod y cam datgomisiynu.

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.6.10 Niwtral.

### **Mesurau lliniaru a/neu wella**

1.9.6.11 Nodir effaith niwtral ac felly ni chredir bod angen unrhyw fesurau lliniaru.

### **C10. A allai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona arwain at newidiadau i draddodiadau/diwylliant Cymraeg?**

- A allai'r cynnig orfodi aelodau lleol o grwpiau gwirfoddol/gweithgareddau/ieuencid lleol i adael yr ardal oherwydd diweithdra/prisiau tai uchel?

1.9.6.12 Gallai'r datblygiad arwain at dynnu siaradwyr Cymraeg o gymuned a/neu gyflwyno pobl ddi-Gymraeg i gymuned sy'n siarad Cymraeg yn bennaf, o ganlyniad i fwy o gyfleoedd swyddi. Gall hyn arwain at dorri cysylltiadau teuluol, gwanhau neu chwalu rhwydweithiau cymdeithasol a cholli cydlyniant cymunedol. Yn aml, cysylltiadau teuluol, rhwydweithiau cymdeithasol a chydlyniant cymunedol sy'n sail i ddiwylliant a thraddodiad.

1.9.6.13 Mae Mesur y Gymraeg 2011 yn datgan: "Mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o gymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru. Mae'n helpu i'n diffinio ni fel cenedl – yn ein cymunedau, yn ein perthnasau â ffrindiau a theulu yn ogystal â fel unigolion. Ynghyd â sawl iaith arall, mae'n ffurfio rhan o'r amrywiaeth cyfoethog sy'n llunio tirwedd gymdeithasol y wlad hon, y Deyrnas Unedig ac Ewrop".

### **Effeithiau yn ystod y cam adeiladu**

1.9.6.14 Nid oes disgwyl i'r cam adeiladu arwain at newidiadau i boblogaeth Gogledd Cymru ac nid oes disgwyl i unrhyw fewnfudo nac allfudo ddigwydd gan fod disgwyl i'r rhan

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

fwyaf o weithwyr fod ar y môr ac aros ar longau. Yng ngoleuni hyn, ni ddisgwylir unrhyw newidiadau i ddiwylliant a thraddodiadau Cymraeg lleol ar draws gogledd Cymru.

- 1.9.6.15 Disgwylir y bydd rhai rolau yn rolau ar y tir, ond nid oes disgwl i nifer isel y swyddi ar y tir a'u lleoliad anhysbys, a allai fod ar wasgar ar draws gogledd Cymru, arwain at newidiadau yn y boblogaeth a fyddai'n arwain at newidiadau i ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig.

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu**

- 1.9.6.16 Niwtral.

### **Effeithiau yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

- 1.9.6.17 Yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw, disgwlir y bydd 34 o weithwyr a'u teuluoedd (gan gynyddu i gyfanswm o 87 o unigolion) yn symud i ogledd Cymru i gael gwaith. Tybir bod y rhain yn bobl ddi-Gymraeg o'r tu allan i ranbarth gogledd Cymru ond gallent gynnwys preswylwyr a allai fod wedi gadael yn y gorffennol ac a allai ddychwelyd, a gallai'r rhain gynnwys siaradwyr Cymraeg.

- 1.9.6.18 Oherwydd y byddai disgwl i adleoliad y gweithwyr hyn a'u teuluoedd ddigwydd yn raddol dros nifer o flynyddoedd, ni fyddai disgwl i'w hadleoliad i ogledd Cymru gael effaith amlwg ar draddodiadau a diwylliant Cymraeg sy'n unigryw i ogledd Cymru.

- 1.9.6.19 Byddai gweithwyr y cam gweithredu a'u teuluoedd yn byw mewn llefy yn y cymunedau ar wasgar ar draws gogledd Cymru. Felly, byddent yn fwy o ran o'r gymuned ac yn dod yn gyfarwydd â thraddodiadau a diwylliant Cymraeg, sy'n elfen annatod o fywyd cymunedol. Fodd bynnag, byddai integreiddiad gweithwyr a'u teuluoedd a fyddai'n dod i gymunedau gogledd Cymru, ac felly eu cefnogaeth i draddodiadau a diwylliant Cymraeg, yn dibynnu ar eu hagweddau a'u parodrwydd i ddysgu Cymraeg. Byddai hefyd yn dibynnu ar barodrwydd y boblogaeth leol i gynorthwyo a chefnogi gweithwyr sy'n mewnfudo a'u teuluoedd i ddod yn rhan o'r traddodiadau a'r diwylliant Cymraeg lleol.

- 1.9.6.20 Byddai'n helpu pe bai gweithwyr yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus i iaith a diwylliant Cymraeg gogledd Cymru, ac yn cael eu hysbysu am bwysigrwydd y Gymraeg a'i diwylliant Cymraeg cyn iddynt symud i ogledd Cymru. Byddai disgwl i fentrau ymwybyddiaeth ddiwylliannol gynyddu gwybodaeth ymysg y gweithwyr o'r tu allan i ogledd Cymru am y traddodiadau a'r diwylliant Cymraeg unigryw sydd yn y cymunedau lleol. Bydd Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn trafod â Menterau Iaith lleol i nodi'r potensial ar gyfer mesurau pellach.

### **Effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw**

- 1.9.6.21 Niwtral.

### **Effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu**

- 1.9.6.22 Nid yw'r union ddull o ddatgomisiynu wedi'i gadarnhau eto, gan nad yw'r arferion gorau ar y pryd yn hysbys. Fodd bynnag, ar ddiweddf oes weithredol Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, rhagwelir y bydd yr holl strwythurau uwchben gwely'r môr neu lefel y ddaear yn cael eu tynnu'n llwyr pan fydd hynny'n ymarferol. Fel arfer, bydd y drefn datgomisiynu yn groes i'r drefn adeiladu ac yn cynnwys mathau a niferoedd tebyg o longau ac offer.

- 1.9.6.23 Yn ystod y camau adeiladu ar y môr ac ar y tir, nid oes disgwl unrhyw newid parhaol na dros dro ym mhoblogaeth gogledd Cymru, ac nid oes disgwl mewnfudo nac allfudo

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

o ganlyniad i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona. Yng ngoleuni hyn, ni ddisgwylir unrhyw newidiadau i ddiwylliant a thraddodiadau Cymraeg lleol ar draws gogledd Cymru. Disgwylir i'r un peth ddigwydd yn ystod y cam datgomisiynu.

### **Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam datgomisiynu**

1.9.6.24 Niwtral.

### **Mesurau Iliniaru a/neu wella**

1.9.6.25 Nodir effaith niwtral ac felly ni chredir bod angen unrhyw fesurau Iliniaru.

### **C11. Ydy Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o gael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned?**

- A allai'r cynnig arwain at lai o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned? Rhesymau dros hyn: Mae siaradwyr Cymraeg yn llai o %, newid iaith mewn rhwydweithiau cymdeithasol penodol, diffyg darpariaeth gwasanaethau Cymraeg yng ngoleuni'r datblygiad, addysg, gofal plant ac ati.
- Ydy'r cynnig yn debygol o arwain at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned?

1.9.6.26 Mae tystiolaeth yn dangos bod cydberthynas gref rhwng hyfywedd a goroesiad iaith ac ardaloedd daearyddol lle mai'r iaith honno yw'r brif iaith. Cydnabyddir bod angen dwysedd uchel o siaradwyr er mwyn i'r iaith Gymraeg fod yn iaith bob dydd mewn gymuned (Llywodraeth Cymru, 2014).

1.9.6.27 Mae dwysedd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn allweddol i sicrhau ffyniant yr iaith a chaiff hyn ei adlewyrchu yng ngweithgarwch y gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gweithgareddau diwylliannol a chymunedol mewn ardal leol yn cyfrannu at werth iaith ac yn creu teimlad o berthyn i gymuned neu ardal (hunaniaith, 2014).

1.9.6.28 Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n fawr ar draws gogledd Cymru. Er yr ystyriod bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan gyfran uchel o'r gymuned ar draws gogledd Cymru mewn rhai ardaloedd yn Ynys Môn a Gwynedd, fodd bynnag, mae'n ddadleuol y dylid ei hystyried yn iaith bob dydd y gymuned ar gyfer y rhan fwyaf o ogled Cymru, oherwydd dadleuir ers tro bod angen i 70% o'r dwysedd poblogaeth fod yn siaradwyr Cymraeg er mwyn i'r Gymraeg fod yn iaith bob dydd y gymuned (Llywodraeth Cymru, 2012). Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint (11.6%), Wrecsam (12.2%), Sir Ddinbych (22.5%) a Chonwy (25.9%) yn sylweddol is na'r 70% yr ystyriod yn angenrheidiol i'r Gymraeg fod yn iaith bob dydd y gymuned.

1.9.6.29 Ar draws gogledd Cymru, mae cyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg sy'n hybu'r Gymraeg a'i diwylliant yn y gymuned, fel yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr a Mudiad Meithrin. Hefyd, nod strategaethau Cymraeg ar draws awdurdodau gogledd Cymru yw sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu mewn cymunedau, yn aml yn seiliedig ar ardaloedd strategol, ac mae cymunedau yn un ohonynt.

1.9.6.30 Mae Menterau Iaith lleol hefyd yn hyrwyddo ac yn datblygu'r Gymraeg ar lefel leol gan gynnwys:

- Hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned
- Annog mewnfudwyr i'r ardal i ddysgu Cymraeg
- Cynnal a chynorthwyo Pwyllgorau er mwyn nodi anghenion y gymuned leol a hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg eu hiaith

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

- Ffurio partneriaethau lleol gyda mudiadau fel Clybiau Ffermwyr Ifanc, Mudiad Meithrin, papurau bro lleol, er mwyn darparu cyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg
- Sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael profiad o weithgareddau Cymraeg eu hiaith
- Hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector preifat.

### Effeithiau yn ystod y cam adeiladu

1.9.6.31 Gan nad oes disgwyl unrhyw newidiadau yn y boblogaeth yn ystod y camau adeiladu ar y môr ac ar y tir o ganlyniad i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona, nid oes disgwyl y bydd unrhyw effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol ar draws gogledd Cymru.

### Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

1.9.6.32 Niwtral.

### Effeithiau yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw

1.9.6.33 Yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw, disgwylir i gyfran uchel o'r gweithlu fod yn bobl leol o ogledd Cymru sydd eisoes yn fedrus yn y mathau o swyddi a gynigir yn ystod y cam gweithredu, neu drwy uwchsgilio'r gweithlu lleol.

1.9.6.34 Fodd bynnag, amcangyfrifir y byddai 34 o weithwyr nad ydynt yn lleol yn adleoli i ogledd Cymru, gan gynyddu i 87 wrth ystyried aelodau o'r teulu a fyddai hefyd yn adleoli am gyfnod hir (35 mlynedd) dros gyfnod cyfan y cam gweithredu a chynnal a chadw. Er mwyn ystyried y sefyllfa waethaf bosib, tybir bod yr holl weithwyr a'u teuluoedd yn ddi-Gymraeg.

1.9.6.35 Nid ystyrrir bod y cynnydd dros dro ym mhoblogaeth gogledd Cymru yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw yn arwain at newid amlwg yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg, gan fod disgwyl i'r gweithwyr a'r aelodau o'u teulu fod wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws gogledd Cymru. Felly nid oes disgwyl unrhyw effaith amlwg ar y Gymraeg fel iaith gymunedol.

### Effaith gyffredinol yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw

1.9.6.36 Niwtral.

### Effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu

1.9.6.37 Nid yw'r union ddull o ddatgomisiynu wedi'i gadarnhau eto, gan nad yw'r arferion gorau ar y pryd yn hysbys. Fodd bynnag, ar ddiweddu oes weithredol Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, rhagwelir y bydd yr holl strwythurau uwchben gwely'r môr neu lefel y ddaear yn cael eu tynnu'n llwyr pan fydd hynny'n ymarferol. Fel arfer, bydd y drefn datgomisiynu yn groes i'r drefn adeiladu ac yn cynnwys mathau a niferoedd tebyg o longau ac offer.

1.9.6.38 Yn ystod y camau adeiladu ar y môr ac ar y tir, nid oes disgwyl unrhyw newid parhaol na dros dro ym mhoblogaeth gogledd Cymru, ac nid oes disgwyl mewnfudo nac allfudo o ganlyniad i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona. Yn sgil hyn, nid oes disgwyl unrhyw effaith ar y defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol ar draws gogledd Cymru. Disgwylir i'r un peth ddigwydd yn ystod y cam datgomisiynu.

### Yr effaith gyffredinol yn ystod y cam adeiladu

1.9.6.39 Niwtral.

## **Mesurau Iliniaru a/neu wella**

- 1.9.6.40 Nodir effaith niwtral yn ystod y camau adeiladu a datgomisiynu, ac felly ni chredir bod angen unrhyw fesurau Iliniaru.
- 1.9.6.41 Gellid datblygu mesurau gwella ochr yn ochr â Mentrâu Iaith lleol ar draws gogledd Cymru a gallent gynnwys:
- Dylai'r holl hysbysebion/arwyddion allanol a godir fel rhan o'r datblygiad arfaethedig fod yn ddwyieithog.
- 1.9.6.42 Bydd Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn trafod â Mentrâu Iaith lleol i nodi'r potensial ar gyfer mesurau pellach.

## **1.10 Casgliad a'r mesurau Iliniaru a gwella arfaethedig**

### **1.10.1 Adeiladu**

- 1.10.1.1 Yn ystod cam adeiladu Prosiect Gwynt Alltraeth Mona (ar y tir ac ar y môr), nid oes disgwyl y bydd gweithwyr yn adleoli'n barhaol (hy dros y tymor hir). Yn ystod y cyfnod adeiladu ar y môr, mae hyn yn seiliedig ar natur symudol rhannau helaeth o'r gweithlu alltraeth a fydd ar longau am batrymau sifft pedair wythnos ar/oddi ar y môr. Disgwylir y byddai angen llety ar bob aelod o'r criw am noson cyn dechrau ac ar ôl gorffen eu sifft, tra'n aros yn eu preswylfa barhaol yn rhywle arall am weddill eu cyfnod 'oddi ar y sifft'. Tybir bod traean o'r gweithwyr yn byw o fewn pellter teithio i'r porthladd(oedd). Yn ystod y cyfnod adeiladu ar y tir, rhagwelir na fydd unrhyw adleoli gweithwyr hirdymor (parhaol) materol i ogledd Cymru, ond mae'n bosibl y bydd galw am lety dros nos (yn seiliedig ar senario wedi ei fodelu), ond dim newid i boblogaeth gogledd Cymru.
- 1.10.1.2 Felly, nodir effaith niwtral o ran nodweddion y boblogaeth yn ystod y cam adeiladu.
- 1.10.1.3 Nid oes dystiolaeth i awgrymu y byddai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn arwain at effeithiau sylweddol (fel y nodir yng Nghyfrol 4, Pennod 4: lechyd Pobl y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod Dogfen F4.4)) ar iechyd ac ansawdd bywyd pobl leol gogledd Cymru. Felly, nodir effaith niwtral gyffredinol ar y Gymraeg a'i diwylliant mewn cysylltiad â'r effaith ar ansawdd bywyd yn ystod y cam adeiladu.
- 1.10.1.4 O ran yr effaith ar ffactorau economaidd, mae disgwyl i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona gynnig cyfleoedd cyflogaeth yn ystod y cam adeiladu i bobl leol ar draws gogledd Cymru. Tybir bod traean o weithwyr adeiladu wedi eu lleoli'n ddigon agos i'r porthladdoedd i ddileu'r angen am lety dros nos pan fyddant ar eu sifftiau. At ddibenion yr asesiad hwn, tybir bod y gweithwyr hyn yn dod o ranbarth gogledd Cymru. Byddai hyn yn cynrychioli tua 116 o flynyddoedd o gyflogaeth cyfwerth ag amser llawn.
- 1.10.1.5 Mae gan y cynnig hefyd y potensial i gefnogi busnesau lleol sy'n cynnig llety dros nos ar draws gogledd Cymru, a byddai disgwyl iddo gael effaith fanteisiol ar yr economi leol gan gynnwys busnesau a swyddi lleol, a fydd yn ei dro yn cefnogi cymuned lle gall y Gymraeg ffynnu. Nodir effaith fanteisiol gyffredinol o ran busnesau a swyddi lleol.
- 1.10.1.6 Nid oes disgwyl i gam adeiladu Prosiect Gwynt Alltraeth Mona arwain at ragor o amrywiaeth economaidd ar draws gogledd Cymru oherwydd natur a math y rolau adeiladu sy'n cael eu cynnig, gan arwain at effaith niwtral gyffredinol ar y Gymraeg a'i diwylliant. Nid oes dystiolaeth i awgrymu y byddai'r prosiect yn cael effaith ar lefelau cyflog lleol nac yn effeithio ar brisiau tai gan fod disgwyl i weithwyr adeiladu gael llety ar longau ar y môr. Felly, nodir effaith niwtral gyffredinol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

1.10.1.7 Ni fydd unrhyw adleoli sylweddol o weithwyr dros y tymor hir (parhaol) na'r tymor byr (dros dro) i unrhyw un o ardaloedd yr astudiaeth gymdeithasol yn ystod y cam adeiladu. Felly, rhagwelir y bydd yr effeithiau posib ar y boblogaeth ac unrhyw effeithiau posib cysylltiedig ar wasanaethau lleol, fel gofal iechyd ac addysg, yn niwtral ac felly rhagwelir effaith niwtral ar y Gymraeg a'i diwylliant.

1.10.1.8 Ni fydd unrhyw adleoli sylweddol o weithwyr dros y tymor hir (parhaol) na'r tymor byr (dros dro) i unrhyw un o ardaloedd yr astudiaeth gymdeithasol yn ystod y cam adeiladu. O ganlyniad, nid oes disgwyl i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol yng nghymunedau gogledd Cymru, at effaith ar draddodiadau a diwylliant Cymraeg, nac at effaith ar y defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

### 1.10.2 Gweithredu a chynnal a chadw

1.10.2.1 O ran yr effaith ar nodweddion y boblogaeth, mae Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o greu rolau newydd yn uniongyrchol mewn gweithgareddau gweithredu a chynnal a chadw. Tybir y bydd effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig ar gyflogaeth yn defnyddio'r gweithlu preswyl presennol ym mhob ardal. Oherwydd y disgwylir i'r effeithiau hyn ddigwydd yn yr economi ehangach, disgwylir i gyfraniad yr effeithiau hyn at fudo llafur adlewyrchu patrymau mudo nodweddiadol sy'n gysylltiedig â thwf economaidd. Felly, disgwylir i effeithiau cyflogaeth anuniongyrchol ac ysgogedig gael effaith fach iawn ar y boblogaeth, tai a llety.

1.10.2.2 Amcangyfrifir y byddai 34 o weithwyr nad ydynt yn lleol yn adleoli i ogledd Cymru, gan gynyddu i 87 wrth ystyried aelodau o'r teulu a fyddai hefyd yn adleoli am gyfnod hir (35 mlynedd) dros gyfnod cyfan y cam gweithredu a chynnal a chadw. Tybiwyd bod y rhain i gyd yn bobl ddi-Gymraeg.

1.10.2.3 Nid ystyrir bod y cynnydd ym mhoblogaeth gogledd Cymru yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw yn arwain at newid amlwg yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg, gan fod disgwyl i'r gweithwyr a'r aelodau o'u teulu fod wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws gogledd Cymru.

1.10.2.4 Tybir bod y 50% o weithwyr nad ydynt yn teithio o'r tu allan i ardal berthnasol yr astudiaeth gymdeithasol ar gyfer eu shifft. Bydd gweithwyr yn y categori hwn naill ai angen llety dros nos am un noson cyn ac ar ôl eu shifft, neu bydd eu taith yn ddigon byr nad oes angen llety dros nos arnynt. Oherwydd y byddai'r gweithwyr hyn yn aros yn rhanbarth gogledd Cymru am gyfnod byr dros dro, ni fyddai unrhyw effaith ar nodweddion poblogaeth gogledd Cymru. Felly, nodir effaith niwtral gyffredinol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

1.10.2.5 Mae tua phedair blynedd o amser paratoi cyn dechrau gweithredu, felly mae amser i hyfforddi rhan sylweddol o'r gweithlu sy'n weddill o'r farchnad lafur leol (gweler y mesurau gwella).

1.10.2.6 Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn arwain at effeithiau sylweddol ar iechyd ac ansawdd bywyd trigolion lleol gogledd Cymru (fel y nodir yng Nghyfrol 4, Pennod 4: Iechyd Pobl y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod y Ddogfen F4.3)). Felly, nodir effaith niwtral gyffredinol ar y Gymraeg a'i diwylliant mewn cysylltiad â'r effaith ar ansawdd bywyd yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw.

1.10.2.7 Yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw, gallai Prosiect Gwynt Alltraeth Mona arwain at gyfanswm o £26.3 miliwn GVA (o ganlyniad i wariant) yn rhanbarth gogledd Cymru, gan gynnig 210 o flynyddoedd o gyflogaeth FTE. Disgwylir i weithwyr lleol o ranbarth gogledd Cymru lenwi'r rhan fwyaf o'r swyddi hyn.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

- 1.10.2.8 Ystyrir bod sicrhau economi ffyniannus sydd â swyddi o ansawdd uchel ar gyfer pobl leol, sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg, yn bwysig i gefnogi ac i gynnal hyfwedd cymunedau.
- 1.10.2.9 Mae tua phedair blynedd o amser paratoi cyn dechrau gweithredu, felly mae amser i hyfforddi rhan sylweddol o'r gweithlu sy'n weddill (2/3 o gyfanswm y gweithlu adeiladu) o farchnad lafur leol gogledd Cymru, a fyddai'n darparu cyfleoedd cyflogaeth hirdymor i bobl leol, gan gynnwys cyfran o siaradwyr Cymraeg, ac yn annog pobl newydd i ymuno â'r sector.
- 1.10.2.10 Yn gyffredinol, ystyrir bod y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw yn fanteisiol o ran y Gymraeg a'i diwylliant, drwy gadw gweithlu lleol presennol gogledd Cymru, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg a darparu cyfleoedd i annog pobl newydd i ymuno â'r sector, a darparu swyddi hirdymor o ansawdd uchel.
- 1.10.2.11 Oherwydd y math o gyflogaeth a gynigir yn ystod y cam gweithredu byddai hyn yn darparu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith ar draws gogledd Cymru, gan arwain at arallgyfeirio economaidd. Byddai hyn yn cael effaith fanteisiol ar y Gymraeg a'i diwylliant ar draws gogledd Cymru oherwydd byddai mwy o amrywiaeth economaidd, yn enwedig ar gyfer gweithlu lleol, yn cyfrannu at gynnal a chryfhau hyfwedd cymunedol. Maes o law byddai hyn yn cefnogi ac yn cryfhau'r Gymraeg.
- 1.10.2.12 Nod y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Amlinellol, a fydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, yw gwella cyfleoedd cyflogaeth lleol ar gyfer y gweithlu lleol ledled gogledd Cymru. Mae uwchsgilio'r gweithlu lleol yn golygu llai o ddibyniaeth ar lafur o'r tu allan i ranbarth gogledd Cymru.
- 1.10.2.13 Nid oes disgwyl i'r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir arwain at newidiadau mewn lefelau cyflog lleol. Byddai'r 87 o weithwyr nad ydynt yn lleol a'u teuluoedd a fyddai'n cael eu hadleoli i ogledd Cymru yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw yn cael eu gwasgaru'n ddaearyddol ar draws gogledd Cymru. Yng ngoleuni hyn, nid oes disgwyl i'r cyfleoedd cyflogaeth y disgwylir i weithwyr nad ydynt yn lleol eu cymryd arwain at effaith amlwg ar brisiau tai ar draws gogledd Cymru, ac felly byddai effaith niwtral ar y Gymraeg a'i diwylliant.
- 1.10.2.14 O ran cyflenwad seilwaith, nid oes disgwyl i adleoli'r 87 o weithwyr hyn, nad ydynt yn lleol, a'u teuluoedd i ranbarth gogledd Cymru am gyfnod hir (35 mlynedd) gael effaith amlwg ar boblogaeth gogledd Cymru oherwydd y byddant ar wasgar yn ddaearyddol. Yng ngoleuni hyn, nid oes disgwyl unrhyw effaith amlwg ar ddarpariaeth gwasanaethau a seilwaith lleol, gan gynnwys capasiti ysgolion lleol a chyfleusterau gofal iechyd, ac felly byddai effaith niwtral ar y Gymraeg a'i diwylliant.
- 1.10.2.15 O ran agweddau cymdeithasol a diwylliannol, mae adleoli gweithwyr nad ydynt yn lleol a'u teuluoedd yn cynrychioli cyfran fach o gyfanswm gweithwyr y cam gweithredu (34, gan gynyddu i 87 wrth ystyried y teuluoedd a fyddai'n adleoli) ac ni ystyrir y byddai adleoliad y gweithwyr hyn a'u teuluoedd yn cyfrannu at densiynau cymdeithasol neu raniadau yn y cymunedau ar draws gogledd Cymru. Yng ngoleuni hyn, ni ddisgwylir unrhyw newidiadau mewn traddodiadau a diwylliant Cymraeg, gan arwain at effaith niwtral ar y Gymraeg a'i diwylliant.
- 1.10.2.16 Nid ystyrir bod y cynnydd dros dro ym mhoblogaeth gogledd Cymru yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw yn arwain at newid amlwg yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg, gan fod disgwyl i'r gweithwyr a'r aelodau o'u teulu fod wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws gogledd Cymru. Felly nid oes disgwyl unrhyw effaith amlwg ar y Gymraeg fel iaith gymunedol.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

### 1.10.3 Datgomisiynu

- 1.10.3.1 Nid yw'r union ddull o ddatgomisiynu wedi'i gadarnhau eto, gan nad yw'r arferion gorau ar y pryd yn hysbys. Fodd bynnag, ar ddiwedd oes weithredol Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, rhagwelir y bydd yr holl strwythurau uwchben gwely'r môr neu lefel y ddaear yn cael eu tynnau'n llwyr pan fydd hynny'n ymarferol. Fel arfer, bydd y drefn datgomisiynu yn groes i'r drefn adeiladu ac yn cynnwys mathau a niferoedd tebyg o longau ac offer.
- 1.10.3.2 Felly, mae disgwyl i'r effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu adlewyrchu'r effeithiau a nodwyd yn ystod y cam adeiladu. Nodir effaith niwtral gyffredinol yn ystod y cam adeiladu o ran nodweddion y boblogaeth, ansawdd bywyd, cyflenwad seilwaith ac agweddu cymdeithasol a diwylliannol, ac effaith fanteisiol o ran cyfleoedd cyflogaeth lleol a'r galw am lety dros nos.

### 1.10.4 Mesurau Iliniaru a/neu wella

- 1.10.4.1 Nid oes unrhyw effeithiau niweidiol wedi cael eu nodi o ran y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw, a datgomisiynu Prosiect Gwynt Alltraeth Mona. Mae'r asesiad yn nodi effaith niwtral yn gyffredinol o ran nodweddion y boblogaeth, ansawdd bywyd, cyflenwad seilwaith ac agweddu cymdeithasol a diwylliannol, ac effaith fanteisiol o ran cyfleoedd cyflogaeth lleol. Er mwyn cynyddu effeithiau manteisiol cyfleoedd cyflogaeth, bydd Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth manwl yn cael ei baratoi ar ôl cael caniatâd, yn unol â gofyniad y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (Cyfeirnod Dogfen C3). Bydd sylwedd y Cynllun manwl yn gyson â'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Amlinellol a gyflwynwyd fel rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (Cyfeirnod Dogfen J24), sy'n ceisio cynyddu'r cyfleoedd cyflogaeth lleol i'r gweithlu lleol ar draws gogledd Cymru, gan gynnwys uwchsgilio a hyfforddi'r gweithlu lleol.
- 1.10.4.2 Gellid datblygu mesurau gwella ochr yn ochr â Mentrâu Iaith lleol ar draws gogledd Cymru a gallent gynnwys:
- Dylai'r holl hysbysebion/arwyddion allanol a godir fel rhan o'r datblygiad arfaethedig fod yn ddwyieithog.
- 1.10.4.3 Bydd Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn trafod â Mentrâu Iaith lleol i nodi'r potensial ar gyfer mesurau pellach.

### 1.11 Cyfeiriadau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2013). Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2014). Canllawiau Cynllunio Atodol 'CDLI6: Yr Iaith Gymraeg'. Ar gael yn: CDLI6 Yr Iaith Gymraeg Mabwysiadwyd Tach 14 ([conwy.gov.uk](http://conwy.gov.uk))

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, (dyddiad cyhoeddi anhysbys). Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022. Ar gael yn: Strategaeth Iaith Gymraeg ([conwy.gov.uk](http://conwy.gov.uk)).\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Cyngor Sir Ddinbych, (2023) Strategaeth Iaith Gymraeg 2023-28 Sir Ddinbych. Ar gael yn: Strategaeth Iaith Gymraeg 2023 i 2028 ([denbighshire.gov.uk](http://denbighshire.gov.uk)).\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Cyngor Sir Ddinbych, (dyddiad anhysbys). Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg'. Ar gael yn: Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg ([denbighshire.gov.uk](http://denbighshire.gov.uk)).\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, (2019). Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 Ar gael yn: Cynllun-Datblygu-Lleol-Cymraeg.pdf ([llyw.cymru](http://llyw.cymru)).\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

## PROSIECT GWYNT ALLTRAETH MONA

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, (2021). Canllawiau Cynllunio Atodol, 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg'. Ar gael yn: Canllaw-Cynllunio-Atodol-3---Cynllunio-ar-iaith-Gymraeg.pdf (llyw.cymru).\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Cyngor Sir y Fflint (2023). Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030 Ar gael yn: CDL1 TERFYNOL Datganiad Ysgrifenedig Cymraeg (flintshire.gov.uk)\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Cyngor Sir y Fflint (2019). Strategaeth Pum Mlynedd i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 2019-2024 Cyngor Sir y Fflint Ar gael yn: Strategaeth Pum Mlynedd i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg (2019) (flintshire.gov.uk)\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Cyngor Gwynedd (2018). Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023 Ar gael yn: FERSIWN\_NEWYDD\_CYMRAEG(SAESNEG)(2).indd (llyw.cymru)\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Strategaeth Iaith Gwynedd (2014-2017). Hunaniaith. 2014. Ar gael yn: Microsoft Word - Eitem 7 - Atodiad A (llyw.cymru)\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd (2017). Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2016. Datganiad Ysgrifenedig Ar gael yn: Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd-Gwynedd-a-Môn-Datganiad-Ysgrifenedig.pdf (llyw.cymru)\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Cyngor Sir Ynys Môn (2021). Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026. Ar gael yn: Strategaeth-Hybur-Gymraeg-2021-2026.pdf (llyw.cymru)\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005. Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi,

Llywodraeth Cymru (2017). Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Ar gael yn: TAN20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (llyw.cymru)\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Llywodraeth Cymru (2017). Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Ar gael yn: Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2012). Mwy na geiriau. Ar gael yn: Mwy na geiriau (llyw.cymru)\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Llywodraeth Cymru. (2014). Nodyn Cyngor Technegol 20: Canllawiau Ymarfer ar gynllunio a'r Iaith Gymraeg.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, (2005) Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam 1996-2011 Ar gael yn: Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam 1996-2011,\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (2022). Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 2022-2027. Ar gael yn: Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 2022-2027 (wrexham.gov.uk)\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (dyddiad anhysbys). Nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol Rhif 31 'Yr Iaith Gymraeg a Chymunedau Cymraeg'. Ar gael yn: Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Lleol Rhif 31 – Yr Iaith Gymraeg a Chymunedau Cymraeg (wrexham.gov.uk)\_Cyrchwyd: Rhagfyr 2023.

## 2 COMMUNITY AND LINGUISTIC IMPACT ASSESSMENT

### 2.1 Introduction

- 2.1.1.1 This Community and Linguistic Impact Assessment (CLIA) presents an assessment of the predicted effects of the Mona Offshore Wind Project on Welsh language, culture and the community. Where adverse and beneficial effects are identified, measures are proposed to mitigate adverse effects and enhance beneficial ones.
